Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 09/2013

www.cymru.gov.uk

# Sefydlu llinell sylfaen ar gyfer craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol

# Sefydlu llinell sylfaen ar gyfer craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol

**Kimberley Horton**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Enw:  Lucie Griffiths
Adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 825780
E-bost: lucie.griffiths@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013
ISBN 978-0-7504-8781-8
(h) Hawlfraint y Goron 2013

## Tabl cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........................................................................ 1
1 Cyflwyniad a Chyd-destun Polisi........................................................5
2 Methodoleg.........................................................................................8
3 Canfyddiadau.....................................................................................12
Manylion Cyffredinol ......................................................................... 12
Cynlluniau Craffu ar BGLlau ........................................................... 15
System Craffu ar BGLlau ................................................................. 16
Aelodaeth.............................................................................................20
Y cymorth presennol ar gyfer gweithgarwch craffu ar BGLlau a dewisiadau ar gyfer y dyfodol...........................................................................................24
Gweithgareddau Craffu ar BGLlau..................................................28
Rhwystrau i graffu ar BGLlau ..........................................................32
Goresgyn rhwystrau i graffu ar BGLlau..........................................36
Ffactorau sy'n ysgogi gweithgarwch craffu ar BGLlau ...................................39
Astudiaethau achos ............................................................................41
4 Astudiaeth Achos 1: Rhondda Cynon Taf ..........................................43
5 Astudiaeth Achos 2: Caerdydd..........................................................46
6 Dysgu o'r adroddiad hwn a chysylltiadau â gwaith arall ......................50
7 Casgliadau ..........................................................................................52
Cyfeiriadau...........................................................................................57
Atodiadau 1..........................................................................................60
Atodiadau 2..........................................................................................66

# Rhestr o dablau a ffigurau

## Tablau


| | | |
|---|---|---|
| Tabl 3.1 | Yr ystod o gynlluniau cyfredol ar gyfer craffu ar BGLlau yn y dyfodol | tud.16 |
| Tabl 3.2 | Amlder dewisiadau ymatebwyr ar gyfer cymorth yn y dyfodol | tud. 27 |
| Tabl 3.3 | Amlder gweithgareddau craffu penodol | tud. 30 |


## Siartiau


| | | |
|---|---|---|
| Siart 3.1 | Amlder awdurdodau lleol yn ôl nifer y pwyllgorau craffu | tud. 14 |
| Siart 3.2 | Amlder awdurdodau lleol yn ôl nifer y swyddogion craffu penodedig | tud. 15 |
| Siart 3.3 | Amlder awdurdodau lleol yn ôl y math o bwyllgor craffu BGLl | tud. 18 |
| Siart 3.4 | Nifer yr aelodau cyfetholedig a'r aelodau etholedig ar baneli craffu presennol a phenodedig | tud. 21 |
| Siart 3.5 | Nifer y swyddogion a all gael cymorth gan sefydliadau gwahanol | tud. 26 |
| Siart 3.6 | Cyfran yr ymatebion am y rhwystrau gwahanol i graffu ar BGLlau | tud. 33 |
| Siart 3.7 | Cyfran yr ymatebion ynghylch goresgyn rhwystrau i graffu ar BGLlau | tud. 37 |
| Siart 3.8 | Cyfran yr ymatebion am ysgogwyr craffu ar BGLlau | tud. 40 |

## Rhestr o acronymau

| | |
|---|---|
| CfPS | Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus |
| GSR | Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth |
| BGLl | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| BILl | Bwrdd Iechyd Lleol |
| O&SC | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu |
| RhCT | Rhondda Cynon Taf |
| SIP | Cynllun Integredig Sengl |
| SRA | Cymdeithas Ymchwil Gymdeithasol |
| SAC | Swyddfa Archwilio Cymru |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| CNLC | Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru |

## Cydnabyddiaethau

Hoffai'r awdur ddiolch i bob un o'r swyddogion craffu a gymerodd ran yn yr ymchwil hon, yn enwedig y rhai a oedd mor barod i helpu i baratoi'r astudiaethau achos. Gwerthfawrogwyd eich amser a'ch cymorth ar adeg brysur i'ch proffesiwn.

Hoffai'r awdur hefyd ddiolch i'r tîm polisi a fu'n gefnogol iawn ac a roddodd lawer o wybodaeth i ni.

Yn olaf, rhaid diolch i'r tîm ymchwil Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol a roddodd gymaint o gymorth a chyngor i ni.

## Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau prosiect ymchwil i weithgarwch craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol (BGLl) ledled Cymru. Nod yr astudiaeth oedd meithrin dealltwriaeth o arferion a materion cyfredol sy'n ymwneud â Chraffu ar BGLlau fel y gellir datblygu llinell sylfaen ar gyfer mesur cynnydd gweithgarwch craffu ar BGLlau mewn awdurdodau lleol yng Nghymru yn y dyfodol.

Cyd-destun Polisi

2. Mae diwygiadau i brosesau darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi canolbwyntio ar y dull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Ystyrir bod atebolrwydd a gweithio mewn partneriaeth yn gysyniadau pwysig wrth symleiddio'r agenda. Mae'r nod o wella gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau mwy o werth am arian yn allweddol i gynlluniau Llywodraeth Cymru i newid y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu a'u dwyn i gyfrif.

3. Nid yw'r bartneriaeth allweddol a'r ymdrech gydweithredol ym mhob awdurdod lleol, sef y BGLl, wedi gorfod cael ei ddwyn i gyfrif yn statudol ers ei sefydlu chwe blynedd yn ôl. Er yr ystyrir yn gyffredinol fod rhai awdurdodau lleol yn craffu ar y BGLl, ni wyddys a yw hyn yn digwydd ar raddfa ehangach. Cynhaliwyd y prosiect ymchwil hwn er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn yn ein dealltwriaeth bresennol a nodi a yw'r canfyddiadau yn cyfateb i'r realiti.

Dulliau

4. Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r llenyddiaeth ymchwil sy'n ymwneud â BGLlau, gweithio mewn partneriaeth a gweithgarwch craffu. Yna, gwahoddwyd swyddog craffu ym mhob awdurdod lleol i gwblhau holiadur ar-lein (a atgynhyrchir yn Atodiad 1), am weithgareddau craffu ar y BGLl yn ei awdurdod lleol a'i farn ar yr

heriau i weithgarwch craffu ar BGLlau a'r ffactorau sy'n ei ysgogi. Cwblhaodd 21 o'r 22 o ymatebwyr posibl yr holiadur.

5. Yna, cyfwelwyd â chwe swyddog craffu wedyn (ceir yr amserlen cyfweld yn Atodiad 3) er mwyn cael gwybodaeth fanylach am weithgareddau craffu ar BGLlau, a barn y swyddogion ar heriau i weithgarwch craffu ar BGLlau. Defnyddiwyd prosiectau craffu ar BGLlau o ddau awdurdod lleol fel astudiaethau achos i ddangos ffyrdd posibl o oresgyn rhai rhwystrau cyffredin i graffu ar BGLlau.

Canfyddiadau

6. Mae'r darlun a ddatgelwyd gan y gwaith ymchwil hwn yn ategu gwaith ymchwil blaenorol yn y maes hwn (CRG, 2007; CfPS, 2012a). Yn gyffredinol, mae gan awdurdodau lleol bum pwyllgor craffu ac un neu ddau swyddog craffu penodedig, er bod hyn yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Ymgymerir â rhyw fath o waith craffu ar BGLlau mewn 12 awdurdod lleol, ond mae gan wyth o'r 10 awdurdod lleol nad ydynt yn craffu ar eu BGLlau ar hyn o bryd gynlluniau i ddechrau gwneud hynny yn ystod y 12 mis nesaf.

7. Mae dau brif ddull o graffu ar BGLlau yng Nghymru:

   a. Mae pwyllgor presennol, er enghraifft, un sy'n gyfrifol am fusnes corfforaethol a gadeirir gan gynghorydd a chanddo 14 o aelodau etholedig ar gyfartaledd, yn derbyn adroddiadau gan y BGLl ac yn gwneud sylwadau neu argymhellion. Weithiau, dirprwyir agweddau penodol ar y BGLl i'r pwyllgor craffu priodol, ond prin iawn yw'r dystiolaeth bod hyn yn cael ei wneud ar raddfa eang.

   b. Cadeirir pwyllgor penodol, a all fod yn is-bwyllgor o bwyllgor trosolwg a chraffu presennol, gan aelod cyfetholedig neu aelod etholedig sy'n cadeirio pwyllgor trosolwg a chraffu awdurdod lleol, sy'n cynnwys pedwar aelod etholedig ar gyfartaledd a phum aelod cyfetholedig ar gyfartaledd o sefydliadau partner. Tueddir i ganolbwyntio naill ai ar y BGLl yn gyffredinol a materion

trawsbynciol, neu ar brosiectau penodol y mae'r BGLl yn gyfrifol amdanynt.

8. Er bod y ddau strwythur hyn yn wahanol iawn, mae'r gweithgareddau sy'n ymwneud â chraffu ar y BGLl yn debyg. Mae bwrdd neu banel craffu'r BGLl yn cynnal cyfarfodydd bob 4 - 12 wythnos lle mae'n cael cyflwyniadau gan swyddogion a rhanddeiliaid allweddol, yn holi tystion ac yn gwneud sylwadau neu argymhellion i'w cyflwyno i'r BGLl.

9. Mae ffocws y ddau drefniant nodweddiadol hyn yn wahanol, am fod yr olaf yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar brosiectau unigol ac mae'r cyntaf yn canolbwyntio mwy ar sut mae'r BGLl yn perfformio'n gyffredinol. Fodd bynnag, mae pethau yn newid o ganlyniad i weithredu'r Cynllun Integredig Sengl sy'n annog paneli craffu'r BGLl penodedig i ganolbwyntio ar y materion trawsbynciol a amlygir wrth gyflawni'r Cynllun Integredig Sengl.

10. Mae cymorth ychwanegol i swyddogion ac aelodau yn nodwedd ar weithgarwch craffu ar BGLlau. Fodd bynnag, er gwaethaf y cymorth sydd ar gael gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus a'r Banc Amser Craffu, nododd y rhan fwyaf o swyddogion y ceid cymorth fel arfer gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar ffurf hyfforddiant i swyddogion a digwyddiadau rhwydweithio i swyddogion, neu o'r tu fewn i'w hawdurdodau lleol ar ffurf hyfforddiant a staff gweinyddol, neu staff o adrannau eraill. O ran cymorth yn y dyfodol, yr opsiwn mwyaf poblogaidd oedd datblygu pecyn adnoddau ar gyfer craffu ar BGLlau.

11. Yn yr holiadur a'r cyfweliadau, gofynnwyd i swyddogion craffu roi eu barn ar rwystrau i graffu ar BGLlau. Y rhwystr a nodwyd amlaf oedd diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth. Yn ail, roedd diffyg amser ac adnoddau. Nodwyd materion diwylliannol, megis diffyg ymgysylltu, ystyriaethau gwleidyddol ac agweddau aelodau hefyd. At hynny, cyfeiriwyd at ddiffyg canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn aml yn y cyfweliadau, fel rhwystr i

gyflawni gweithgareddau craffu ar BGLlau. Mae'r rhwystrau hyn i gyd wedi'u hategu gan ymchwil sy'n bodoli eisoes ar weithgarwch craffu.

12. Er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn, nododd yr ymatebwyr y dylid ceisio gwella dealltwriaeth aelodau a phartneriaid, a fyddai'n golygu rhagor o hyfforddiant. At hynny, ystyriwyd bod meithrin ymddiriedaeth a pherthnasau drwy gyfathrebu a bod yn agored yn ffyrdd eraill o oresgyn rhwystrau. Gelir gwneud hyn drwy newid yr amgylchedd lle y cyflawnir gweithgarwch craffu. Mae'r astudiaethau achos yn rhoi enghreifftiau o'r ffordd y mae rhwystrau penodol wedi'u goresgyn mewn cyd-destunau penodol.

13. O gofio'r pwyslais y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar hyn, nid yw'n syndod, efallai, mai'r ffactorau sy'n ysgogi gweithgarwch craffu ar BGLlau a nodwyd gan yr ymatebwyr oedd partneriaeth, cydweithio ac atebolrwydd. Cydnabuwyd arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, ond cyfeiriodd swyddogion at eu harweinyddiaeth eu hunain hefyd, gan nodi nad yw'r aelodau, ar y cyfan, yn chwilio am ffyrdd o ddwyn y BGLlau i gyfrif. Ceir rhai eithriadau i hyn.

Astudiaethau achos

14. Dengys yr astudiaethau achos, er bod llawer o heriau yn gysylltiedig â chraffu ar BGLlau, y gall awdurdodau lleol oresgyn yr heriau hynny a dysgu o weithgareddau blaenorol. Roedd yr heriau sy'n gysylltiedig â sut y gellir goresgyn diffyg gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau drwy hyfforddiant priodol. Gellir mynd i'r afael â gwahaniaethau diwylliannol posibl drwy hyfforddi a meithrin perthnasau. Mae'r ffocws a ddewisir i weithgarwch craffu yn hollbwysig i sicrhau bod crafwyr yn cymryd diddordeb yn eu rôl ac yn ei chyflawni a gellir lliniaru unrhyw anghydraddoldeb o ran pŵer rhwng aelodau etholedig a chyfetholedig drwy roi hawliau pleidleisio i aelodau cyfetholedig.

Casgliadau

15. Ceir darlun cymysg ledled Cymru o ran gweithgareddau craffu ar BGLlau. Tybir bod gweithgarwch craffu ar BGLlau yn beth ‘da’ a bod angen ei gyflawni'n effeithiol. Ymddengys fod gweithgarwch craffu ar BGLlau yn datblygu mewn ymateb i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac ymgyrch Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cydweithio, symleiddio ac atebolrwydd. Mae enghreifftiau o arloesi o ran gweithgarwch craffu ar BGLlau yn cynnwys sicrhau cyfranogiad y cyhoedd mewn ffordd fwy safonedig. Bydd angen rhagor o waith ymchwil unwaith y bydd y newidiadau a wnaed o ganlyniad i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wedi'u rhoi ar waith.

## 1 Cyflwyniad a Chyd-destun Polisi

1.1 Nod yr ymchwil hon yw meithrin dealltwriaeth o arferion a materion cyfredol sy'n gysylltiedig â gweithgarwch Craffu ar BGLlau yng Nghymru fel y gellir datblygu llinell sylfaen ar gyfer mesur cynnydd gweithgarwch craffu ar BGLlau mewn awdurdodau lleol yng Nghymru yn y dyfodol. Fe'i comisiynwyd gan yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r bennod hon yn rhoi cyflwyniad byr i'r cyd-destun polisi ar gyfer craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol, cyn cyflwyno'r prosiect ei hun.

1.2 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yw'r ddiweddaraf mewn cyfres o ddeddfau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru i weithredu argymhellion adolygiad Beecham 2006 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006). Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol, a ddisodlodd Bartneriaethau Strategol Lleol yng Nghymru yn dilyn adolygiad Beecham, yn rhan o ymgyrch ehangach yng Nghymru i ddiwygio'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus; diwygiadau sy'n defnyddio dull ‘sy'n canolbwyntio ar y dinesydd’. Mae'r dull gweithredu hwn yn dibynnu ar y cysyniad a drafodwyd yn helaeth o ‘lais’ y dinesydd yn darparu cyfeiriad ar gyfer gwella. Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol, a'r gwaith o graffu arnynt, yn rhan o'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

1.3 Bwriedir i swyddogaeth graffu'r awdurdod lleol, sydd wedi datblygu ers gweithredu Deddf Llywodraeth Leol 2000, gefnogi effeithiolrwydd ac atebolrwydd y llywodraeth a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau (Snape a Dobbs, 2003). I ddechrau, roedd rhai sylwebwyr o'r farn bod y swyddogaeth trosolwg a chraffu yn ddatblygiad cyffrous a phwerus, gydag aelodau anweithredol yn cymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau ac yn cadw eu pŵer (Snape et al, 2002). Fodd bynnag, ers hynny mae eraill wedi nodi bod llawer o heriau yn gysylltiedig â'r newid hwnnw (Wilson a Game, 2006). Os oes heriau wedi bod yn gysylltiedig â'r swyddogaeth graffu yn gyffredinol, nid yw'n syndod, efallai, fod heriau tebyg yn gysylltiedig, o bosibl, â gweithgarwch craffu ar BGLlau, yn enwedig am fod awdurdodau lleol a'u partneriaid wrthi'n ymateb i Fesur 2011.

1.4 Er yr ystyrir bod BGLlau o blaid ateb cydweithredol i fynd i'r afael â materion polisi sy'n anodd yn draddodiadol, megis cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau, nid yw'r gwaith o graffu arnynt wedi'i wneud yn statudol (Martin et al, 2011). Yn wir, ychydig iawn a wyddom am y graddau y caiff BGLlau eu dwyn i gyfrif, na sut y caiff eu perfformiad ei fonitro. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch hwn mewn gwybodaeth. Ni fwriedir i'r adroddiad hwn feithrin dealltwriaeth o effeithiolrwydd gweithgarwch craffu ar BGLlau. Yn hytrach, ei nod yw asesu faint o weithgarwch craffu ar BGLlau sy'n cael ei gyflawni a beth yw nodweddion gwaith craffu da ac effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys deall beth yw'r rhwystrau a ffyrdd posibl o fynd i'r afael â hwy.

1.5 Mae pennod dau yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd i wneud y gwaith ymchwil hwn. Mae pennod tri yn disgrifio ac yn trafod y canfyddiadau gan gyfeirio at waith ymchwil blaenorol ac yn rhagflaenu dwy astudiaeth achos o waith craffu effeithiol a'r ffordd yr aethant i'r afael â rhai o'r problemau a drafodir ym mhenodau pedwar a phump. Mae pennod chwech yn canolbwyntio ar sut y gallai swyddogion craffu ddysgu o'r adroddiad hwn a manteisio ar gysylltiadau â gwaith

arall sy'n mynd rhagddo. Yn olaf, mae pennod saith yn cyflwyno rhai sylwadau i gloi.

## 2 Methodoleg

2.1 Cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth er mwyn deall y llenyddiaeth ymchwil a'r ddeddfwriaeth, fel maent yn gysylltiedig ag atebolrwydd democrataidd a swyddogaeth graffu llywodraeth leol ac agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru, gan roi pwyslais arbennig ar yr agenda symleiddio ar gyfer BGLlau. Ar ôl cwblhau'r adolygiad o lenyddiaeth, datblygwyd holiadur i gasglu gwybodaeth am weithgarwch craffu ar BGLlau cyfredol o fewn y 22 o awdurdodau lleol[i].

2.2 Cafodd yr holiadur ei weinyddu gan ddefnyddio Questback, sef adnodd arolygu ar y we. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddefnyddio'r ddolen a anfonwyd mewn neges e-bost a chwblhau'r holiadur. Rhoddwyd sicrwydd i'r ymatebwyr nad oeddent yn gorfod cymryd rhan yn yr arolwg ond tybiwyd eu bod wedi cydsynio i gymryd rhan ynddo os gwnaethant ddilyn y ddolen a chwblhau'r holiadur. Rhoddwyd sicrwydd i'r ymatebwyr hefyd y byddai pob ymateb i'r holiadur yn aros yn ddienw. O'r 22 o swyddogion craffu a gafodd ddolen i'r arolwg, derbyniwyd 21 o holiaduron wedi'u cwblhau[ii].

2.3 Mae cael 21 allan o 22 o holiaduron yn cyfateb i gyfradd ymateb o 95%. Yr arolwg mwyaf tebyg i'r arolwg hwn yw arolwg craffu blynyddol y CfPS o swyddogion o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Cymerodd o leiaf un person o 43% o'r awdurdodau lleol ran yn ei harolwg mwyaf diweddar. Dangosodd y dadansoddiad o gyfradd ymateb y CfPS mai dim ond 2.1% o'r ymatebwyr a oedd yn dod o awdurdod lleol yng Nghymru, ac mai dim ond pum awdurdod lleol unigol a gymerodd ran yn yr arolwg. Golyga hyn fod yr ymatebion o'r holiadur presennol yn fwy cynrychioliadol o swyddogion craffu yng Nghymru nag arolwg y CfPS. Fodd bynnag, mae arolwg y CfPS yn

[i] Ceir copi o'r holiadur yn Atodiad 1. Ceir copïau o'r ohebiaeth a anfonwyd at y cyfranogwyr yn Atodiadau 2, 4, 5 a 6.
[ii] Er na lenwodd un ymatebydd yr holiadur, cyflwynodd y swyddog ymateb ysgrifenedig yn esbonio sut roedd yr awdurdod lleol yn mynd ati i graffu ar y BGLl.

bwysig iawn ac yn yr adroddiad hwn mae'n bwynt cyfeirio defnyddiol ar gyfer canfyddiadau penodol.

2.4 Cyflwynir yr ymatebion meintiol ac ansoddol i'r holiadur yn y bennod Canfyddiadau (tri). Yn gyffredinol, rhoddir moddau (yr atebion mwyaf cyffredin), ond, lle y bo'n briodol, defnyddir ystadegau disgrifiadol eraill, gan gynnwys yr ystod a'r cymedr. Cyflwynir y rhain mewn tablau a siartiau. Mae'r ystadegau disgrifiadol hyn yn rhoi gwybodaeth am yr agweddau meintiol ar weithgarwch craffu ar BGLlau, er enghraifft faint o aelodau cyfetholedig sy'n cymryd rhan yn y gwaith craffu a pha gymorth yr hoffai swyddogion ei gael yn y dyfodol.

2.5 Gwahoddwyd pob ymatebydd i'r holiadur a nododd fod ei awdurdod lleol wedi gwneud rhyw fath o drefniadau ar gyfer craffu ar y BGLl i nodi a oedd yn barod i gymryd rhan yn y cyfweliadau. Nododd wyth ymatebydd y byddent yn fodlon i rywun gysylltu â hwy i ofyn iddynt gymryd rhan mewn cyfweliad dilynol.

2.6 Cynhaliwyd dadansoddiad rhagarweiniol o'r ymatebion, a helpodd i lywio'r amserlen ar gyfer y cyfweliadau dilynol. Mae'r pynciau a gynhwyswyd yn yr amserlen gyfweld fel a ganlyn:

- Y trefniadau ar gyfer craffu ar BGLlau.
- Craffu ar y BGLl o fewn yr awdurdod lleol.
- Y broses o graffu ar y BGLl.
- Hyfforddi a datblygu'r broses graffu.
- Materion sy'n ymwneud â chraffu ar y BGLl.
- Cyfranogiad Llywodraeth Cymru.
- BGLlau.

2.7 Cysylltwyd â chyfweleion posibl a chafwyd caniatâd i gynnal cyfweliad dros y ffôn. Cynhaliwyd chwe chyfweliad gyda swyddogion craffu yn nodi bod lefel y gweithgarwch craffu sy'n cael ei gyflawni yn amrywio.

2.8 Cafodd yr ymatebion i'r cwestiynau eu codio a'u dadansoddi'n thematig. Deilliodd y codau o'r holiadur a'r ymatebion iddo, yr

adolygiad o lenyddiaeth a data'r cyfweliadau ei hun. Felly, mae'r bennod Canfyddiadau wedi'i threfnu yn ôl y themâu canlynol:

- Manylion cyffredinol.
- Cynlluniau craffu ar BGLlau.
- Trefniadau craffu ar BGLlau, aelodau a strwythur BGLlau.
- Cymorth a swyddogion.
- Gweithgareddau a ffocws craffu.
- Rhwystrau.
- Ffactorau galluogi ac ysgogi a goresgyn rhwystrau, gan gynnwys amodau sy'n hyrwyddo gwaith craffu ar BGLlau effeithiol.

2.9 O'r chwe swyddog craffu a gyfwelwyd, dewiswyd dau awdurdod lleol ar gyfer astudiaethau achos. Cynigiodd y ddau awdurdod lleol dan sylw enghreifftiau o waith craffu ar BGLlau effeithiol. At hynny, mae un o'r awdurdodau lleol hynny wedi gorfod delio â llawer o'r rhwystrau a nodwyd yn yr ymatebion i'r holiadur, y cyfweliadau a'r llenyddiaeth. Mae'r awdurdod lleol arall wedi newid ffocws ei weithgarwch craffu yn ddiweddar a bu'n rhaid iddo ddysgu o broblemau a wynebwyd gan ei banel craffu'r BGLl gwreiddiol. Felly, cyflwynir yr achosion yn nhermau'r problemau y maent wedi dod ar eu traws a'r ffordd y cawsant eu datrys. Nodir y rhain ym mhenodau pedwar a phump.

2.10 Wrth ddarllen yr adroddiad hwn dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau a'u cymhwyso at brosiectau craffu ar BGLlau. Mae hyn yn arbennig o wir am yr astudiaethau achos, sy'n enghreifftiau o waith a wnaed mewn dau awdurdod yn unig, y mae ganddynt eu hamodau a'u hamgylchiadau unigryw eu hunain. Nid yw'r rhain yn ffyrdd diffiniol o graffu ar BGLlau. Yn wir, nid ydynt yn nodi sut i graffu ar BGLlau ond fe'u cyflwynir i ddangos sut y gellir datrys problemau penodol.

2.11 Yn foesegol, nid oes fawr ddim yn y gwaith ymchwil hwn a allai niweidio'r cyfranogwyr na'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dilynwyd canllawiau moesegol GSR a SRA a chadwodd yr ymchwilydd at restr wirio moeseg GSR. O ganlyniad, hysbyswyd pob cyfranogwr o'r hyn y

byddai cyfranogi yn ei olygu cyn iddo gytuno i gymryd rhan yn yr arolwg. Eglurwyd i ddarpar gyfranogwyr bod eu cyfranogiad yn wirfoddol ac y gallent dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. At hynny, cadwyd eu hymatebion yn gyfrinachol o fewn y tîm ymchwil a dim ond ar ôl cael caniatâd gan ffynhonnell y dyfyniad y defnyddiwyd unrhyw ddyfyniadau uniongyrchol.

2.12 O gofio natur rhwydweithiau swyddogion craffu, mae'n bosibl bod swyddogion craffu yn ymwybodol o drefniadau craffu ar BGLlau ei gilydd a'r problemau y maent yn eu hwynebu o ran craffu ar BGLlau. Felly, mae'n bosibl y caiff enw rhywun ei ddatgelu'n anfwriadol, yn enwedig o'r cyfweliadau unigol. Cymerwyd gofal i sicrhau na chaiff sylwadau na gwybodaeth a allai ddatgelu enw unigolyn eu cyhoeddi fel rhan o'r adroddiad hwn. Mewn cyferbyniad, mae'r astudiaethau achos yn nodi eu tarddiad am fod y ddau awdurdod lleol wedi cytuno i gael eu henwi yn yr adrannau hyn o'r adroddiad.

2.13 Ar gyfer yr holiadur, roedd pob ymatebydd yn gallu dewis ei gwblhau yn Gymraeg neu yn Saesneg a darparwyd gohebiaeth am yr holiadur yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, am nad yw'r ymchwilydd yn siarad Cymraeg, cynhaliwyd y cyfweliadau yn Saesneg. Mae'r adroddiad presennol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

# 3 Canfyddiadau

3.1 Yn gyffredinol, ychydig iawn o weithgarwch craffu ar BGLlau a gyflawnwyd dros y 12 mis diwethaf. Er i ymdrechion gael eu gwneud i ddechrau craffu ar BGLlau, oherwydd yr etholiad ym mis Mai, nid oeddent yn llwyddiannus iawn. At hynny, mae rhai awdurdodau lleol wedi newid eu trefniadau craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae rhai gweithgareddau craffu wedi'u hatal dros dro. Hefyd, mae awdurdodau yn aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ar ddarpariaeth y personau dynodedig a'r Cynllun Integredig Sengl.

### Manylion Cyffredinol

3.2 Newidiodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu (Downe ac Ashworth, 2011). Gwahanodd brosesau gwneud penderfyniadau a phrosesau craffu o fewn awdurdodau lleol. O ganlyniad, gwahanwyd yr aelodau gweithredol a'r aelodau anweithredol. Mae gan y swyddogaeth trosolwg a chraffu 'newydd' y rôl eang o gofnodi materion sy'n effeithio ar yr ardal a'i thrigolion a'u hargymell i'r weithrediaeth a'r awdurdod (CLILC, 2010). Yn ei ffurf fwyaf cyffredinol, mae craffu yn cyfeirio at weithgareddau y bwriedir iddynt nodi pa mor effeithiol yw gweithgareddau corff, gwasanaeth neu unigolyn penodol, neu fel arall ymchwilio iddynt yn drylwyr. Mae a wnelo craffu â sicrhau effeithiolrwydd ac atebolrwydd y llywodraeth.


3.3 Mae a wnelo craffu cyhoeddus â sefydliadau neu swyddogaethau a etholwyd neu a benodwyd yn archwilio a monitro gweithgarwch corff yn y sector cyhoeddus, er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus.

> *Mae craffu yn sicrhau y caiff swyddogion gweithredol eu dal yn atebol am eu penderfyniadau, bod eu proses gwneud penderfyniadau yn eglur a hygyrch i'r cyhoedd a bod cyfleoedd i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr ddylanwadu ar bolisi cyhoeddus a'i wella* (CfPS, 2012b).

3.4 Mae'r aelodau gweithredol hyn yn aelodau gweithredol o awdurdodau lleol, ond gallai hefyd olygu swyddogion gweithredol darparwyr gwasanaethau cyhoeddus nad ydynt yn awdurdodau lleol. Mae hyn yn arbennig o bwysig am fod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus nad ydynt yn awdurdodau lleol, megis yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gwirfoddol ac nid yw'r aelodau gweithredol hyn sy'n gwneud penderfyniadau wedi'u hethol yn ddemocrataidd. Golyga Deddf 2000 fod disgwyl i awdurdodau lleol gael nifer o bwyllgorau trosolwg a chraffu, ond ni nodir faint o bwyllgorau a ddylai fod ganddynt.

3.5 Am nad oes unrhyw gyfarwyddyd o ran faint o bwyllgorau craffu a ddylai fod gan awdurdodau lleol, nid yw'n syndod bod nifer y pwyllgorau a swyddogion craffu yn amrywio, fel y dangosir yn Siart 3.1 isod. Ar gyfartaledd, mae awdurdodau lleol yn tueddu i gael pedwar pwyllgor craffu, ond mae gan 10 awdurdod lleol bum pwyllgor craffu. Mae hyn yn debyg i ganfyddiadau'r arolwg mwyaf diweddar gan CfPS (2012a), a nododd fod gan awdurdodau lleol yng Nghymru 4.5 pwyllgor craffu ar gyfartaledd, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 3.7.

**Siart 3.1: Amlder awdurdodau lleol yn ôl nifer y pwyllgorau craffu**





3.6 Nid oes unrhyw gyfarwyddyd ynghylch faint o gymorth y dylai paneli craffu ei gael. Canfu CRG (2007) fod cymorth swyddogion ar gyfer craffu yn amrywio ledled Cymru o ran nifer y swyddogion a'u rolau. Ar gyfartaledd, mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddau swyddog craffu penodedig. Mae gan ddeunaw o awdurdodau lleol lai na phedwar swyddog craffu penodedig, ond mae gan dri awdurdod lleol bedwar, pump a chwe swyddog craffu yn y drefn honno, fel y dangosir yn Siart 3.2 ar dudalen 14. Fodd bynnag, mae gan rai awdurdodau lleol staff rhan-amser a chymorth mewnol arall, a nodir isod. Mae'r CfPS (2012a) yn mesur llawer o agweddau ar swyddogion cymorth craffu yn ei harolwg blynyddol, ond at ddibenion y gwaith ymchwil hwn cynyddodd nifer gyfartalog y swyddogion cyfwerth ag amser llawn rhwng 2004 a 2010 o 1.2 i 3.2.

3.7 Dengys yr ymatebion i'r holiadur mai nifer gyfartalog y swyddogion craffu penodedig yng Nghymru yw 2.2. Yn ei harolwg yn 2012, nododd y CfPS (2012a) fod 73% o'r ymatebwyr wedi dweud bod ganddynt swyddog neu dîm craffu penodedig, sy'n golygu nad oedd gan 27% un. Ond yng Nghymru yn unig, yn ôl y gwaith ymchwil hwn,

dim ond 9% (dau) o'r awdurdodau lleol a nododd nad oedd ganddynt swyddog na thîm craffu penodedig. Fodd bynnag, ni olyga hyn nad oedd unrhyw gymorth ar gyfer craffu yn yr awdurdodau lleol hyn am ei bod yn bosibl bod swyddogion y mae cymorth craffu ond yn ffurfio rhan o'i rôl. Yn wir, dengys yr ymatebion i'r holiadur fod 10 swyddog craffu yn gallu troi at swyddogion eraill o fewn eu hawdurdod lleol am gymorth. Dengys yr ymatebion i'r holiadur mai nifer gyfartalog y swyddogion craffu cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru yw dau, sydd ychydig yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 2.7 (CfPS, 2012a).).

**Siart 3.2: Amlder awdurdodau lleol yn ôl nifer y swyddogion craffu penodol**




## Cynlluniau Craffu ar BGLlau

3.8 O'r 22 o swyddogion a ymatebodd i'r holiadur, nododd 10 nad oedd eu hawdurdod lleol wedi sefydlu unrhyw fath o system ar gyfer craffu ar BGLlau. Gofynnwyd wedyn i'r 10 ymatebydd hyn am gynlluniau eu hawdurdod lleol ar gyfer y fath weithgarwch craffu; dywedodd wyth fod gan eu hawdurdod lleol gynlluniau i ddatblygu gweithgarwch craffu ar BGLlau yn ystod y 12 mis nesaf. Dangosir cynlluniau pob

awdurdod lleol ar gyfer craffu ar BGLlau yn ystod y 12 mis nesaf yn Nhabl 3.1 ar dudalen 15.

3.9 Dengys Tabl 3.1 fod y graddau y mae awdurdodau lleol nad ydynt yn craffu ar BGLlau ar hyn o bryd, yn bwriadu gwneud hynny o fewn y 12 mis nesaf yn amrywio. Mae'r rhai a gyfwelwyd, a nododd ar eu holiadur fod eu hawdurdod lleol eisoes wedi sefydlu rhyw fath o system ar gyfer craffu ar BGLlau, yn parhau i gynllunio eu gweithgareddau craffu ar BGLlau ar gyfer y dyfodol a ddangosir yn Nhabl 3.1. Cyfeiriodd y cyfweleion hyn at gynlluniau eu hawdurdodau lleol i weithredu mesur 2011 er mwyn helpu i ddatblygu'r Cynllun Integredig Sengl a chraffu arno a pharatoi ar gyfer darpariaeth y personau dynodedig. Nododd un cyfwelai y gall aelod newydd o staff ysgogi mwy o graffu ar y BGLl a dywedodd un arall fod y BGLl wedi nodi ei fod am newid y trefniadau cyfredol er mwyn cynnwys fforwm pobl a grŵp rhanddeiliaid o sefydliadau partner yn y gwaith o graffu arno.

**Tabl 3.1: Ystod y cynlluniau cyfredol ar gyfer craffu ar BGLlau yn y dyfodol**

| | Dim cynlluniau; yn aros am ganllawiau | Personél newydd; syniadau bras | Cytundeb yn ystod y 12 mis nesaf | Cynlluniau a thrafodaethau yn 2012 | Cynlluniau pendant |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim gweithgarwch craffu ar BGLlau ar hyn o bryd | 2 | 0 | 1 | 2 | 3 |
| Gweithgarwch craffu ar BGLlau | 0 | 1 | 0 | 2 | 3 |
| Cyfanswm | 2 | 1 | 1 | 4 | 6 |


**System Craffu ar BGLlau**

3.10 Nododd adroddiad Simpson (Simpson, 2011) y gellir craffu ar drefniadau cydweithredol o fewn strwythurau craffu presennol, y mae

iddo fanteision, megis y gallu i barhau i ganolbwyntio ar yr effaith ar gyfer awdurdod penodol, cysywllt democrataidd clir â'r gymuned, gweithio o fewn adnoddau presennol a chanfyddiad bod risg is o ddyblygu a dryswch (Mckenna, 2012). Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gweithredu'r trefniadau craffu newydd yn annog y swyddogaeth graffu i weithredu yn fwy arloesol.

Canfu CRG (2007) fod y dull o weithredu trefniadau trosolwg a chraffu yn amrywio gryn dipyn rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Ymddengys fod y gwaith ymchwil a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn yn ategu honiad CRG. Nododd 12 o'r 22 o ymatebwyr fod eu hawdurdodau lleol wedi sefydlu rhyw fath o system ar gyfer craffu ar BGLlau. Fe'u holwyd am drefniadau craffu ar BGLlau presennol eu hawdurdodau lleol. Nododd yr ymatebion fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol naill ai'n defnyddio pwyllgor trosolwg a chraffu presennol neu'n creu corff newydd, penodol i graffu ar y BGLl. Gall pwyllgor trosolwg a chraffu presennol ddirprwyo busnes sy'n ymwneud â'r BGLl i bwyllgorau trosolwg a chraffu presennol eraill o fewn yr awdurdod lleol. At hynny, gall panel newydd, penodol fod yn annibynnol neu gall fod yn is-bwyllgor o bwyllgor trosolwg a chraffu presennol. Hefyd, gall cadeiryddion pwyllgorau trosolwg a chraffu presennol awdurdodau lleol arsylwi cyfarfodydd BGLlau. Dengys Siart 3.3 isod faint o awdurdodau lleol sydd â phob math o drefniant craffu.

**Siart 3.3: Amlder Awdurdodau Lleol yn ôl y math o bwyllgor craffu BGLl**




3.11 Ymddengys fod dwy brif ffordd y mae awdurdodau lleol yn trefnu i graffu ar y BGLl ar hyn o bryd: defnyddio pwyllgor presennol neu sefydlu pwyllgor newydd, penodol. Dengys Siart 3.3 fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio pwyllgorau presennol, y mae rhai ohonynt yn cyflawni'r holl weithgarwch craffu ar y BGLl (yn unig) ac y mae rhai ohonynt yn defnyddio pwyllgorau craffu eraill i ymchwilio i bynciau sydd fwyaf addas i'w cylch gwaith (dirprwyo). Mae llai o awdurdodau lleol yn sefydlu cyrff craffu ar BGLlau annibynnol, newydd, penodol yn unswydd er mwyn ymchwilio i'r ffordd y mae'r BGLl yn gweithio.

3.12 Mewn cyfweliadau â chwe swyddog craffu, nododd tri swyddog fod newidiadau mawr yn cael eu gwneud i drefniadau craffu eu hawdurdodau lleol ac mae trefniadau craffu un awdurdod lleol eisoes wedi'u newid yn sylweddol. Nododd un cyfwelai fod y BGLl, yn wreiddiol, yn destun gwaith craffu llac gan bwyllgor craffu presennol a ddirprwyai i bwyllgorau eraill, ond fod y pwyllgor craffu, mewn gwirionedd, am gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn roedd y BGLl yn ei wneud: ‘nid oedd yn craffu arno mewn gwirionedd’ (cyfweliad un). Mae hyn wedi arwain at newidiadau parhaus dros y

chwe mis diwethaf i'r ffordd y creffir ar y BGLl a all adlewyrchu'r ffordd y mae pwyllgorau presennol eraill yn mynd ati i graffu ar BGLlau ai peidio.

3.13 Mewn un awdurdod lleol, mae'r pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi'u newid ac mae hyn wedi dylanwadu ar ba bwyllgor craffu presennol sy'n craffu ar y BGLl. Yn flaenorol, byddai pwyllgor trosolwg a chraffu a oedd yn gyfrifol am 'lywodraethu a pholisi corfforaethol' yn ystyried y rhan fwyaf o'r materion a oedd yn ymwneud â'r BGLl a gallai pwyllgorau, mwy priodol, eraill, graffu ar brosiectau penodol. Fodd bynnag, nid yw aelodau na sefydliadau eraill erioed wedi pwyso ar yr awdurdod lleol penodol hwn i roi mwy o sylw i waith y BGLl, er bod y systemau a'r trefniadau a'r strwythur ffurfiol (cyfweliad pump) ar waith ers mis Ebrill 2009. Mewn cyferbyniad, mae'r pwyllgor newydd yn canolbwyntio ar bartneriaeth a chydweithio ac mae hyn yn golygu bod craffu ar y BGLl yn cyd-fynd â'i waith, a all, ynghyd â'r Cynllun Integredig Sengl a darpariaeth y personau dynodedig, newid y lefel a math o weithgarwch craffu ar y BGLl a gyflawnir yn yr awdurdod lleol hwn.

3.14 Mewn awdurdod lleol arall, roedd adroddiad a gododd bryderon ynghylch y ffaith nad oedd swydd swyddog craffu o fewn yr awdurdod lleol a'r ffordd yr oedd yr awdurdod lleol yn ymgymryd â gweithgarwch craffu, wedi annog yr awdurdod lleol i benodi prif swyddog craffu a swyddog craffu. Mae hyn wedi arwain at ddatblygiadau o fewn y swyddogaeth trosolwg a chraffu yn gyffredinol, cyn datblygu a gweithredu'r trefniadau craffu ar y BGLl a chynnwys partneriaid. Mewn awdurdod lleol lle roedd gweithgarwch craffu ar y BGLl wedi'i gyflawni'n eithaf llwyddiannus, cododd adroddiad annibynnol faterion a oedd yn ymwneud â ffocws y gweithgarwch craffu, sydd wedi'i newid ers hynny.


3.15 Dengys y canlyniadau hyn fod trefniadau craffu yn amrywio. Fodd bynnag, mewn rhai awdurdodau lleol, caiff trefniadau eu newid o ganlyniad i waith hunanwerthuso; mewn awdurdodau lleol eraill, caiff

trefniadau eu newid o ganlyniad i ddylanwad allanol. Mae hwn yn ganfyddiad calonogol o gofio'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan SAC, y CfPS a'r awdurdodau lleol ar hunanwerthuso gweithgarwch craffu a'r gwaith y byddant yn ei wneud arno yn y dyfodol.

**Aelodaeth**

3.16 Gofynnodd yr holiadur gwestiynau ynghylch aelodau cyfetholedig ac aelodau etholedig. Mae'r unigolion sy'n ymwneud â chraffu ar BGLlau yn amrywio cryn dipyn ledled Cymru. Mae aelodau etholedig yn rhan hanfodol o'r swyddogaeth graffu, ond nid oes unrhyw ddeddfwriaeth sy'n nodi faint o aelodau etholedig a ddylai fod ar banel craffu. Yn yr un modd, nid yw deddfwriaeth na chanllawiau yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch cyfethol partneriaid i banel craffu'r BGLl neu weithgor. Mae cyfethol yn golygu caniatáu i aelodau partner nas etholwyd (neu unigolion sydd â diddordeb proffesiynol neu arbenigol yn y panel) fynd i gyfarfodydd y panel, cyfrannu atynt ac weithiau bleidleisio ynddynt (Mesur Llywodraeth Leol (Cymru), LlC, 2011). Dylid nodi'r graddau y gall aelodau cyfetholedig gyfranogi yn y panel ac mewn cyfarfodydd yng nghylch gorchwyl y panel.

**Siart 3.4: Nifer yr aelodau cyfetholedig a'r aelodau etholedig ar baneli craffu presennol a phenodol**




3.17 Nododd pedwar ymatebydd fod aelodau cyfetholedig yn cael eu cynnwys fel rhan annatod o'r trefniadau Craffu ar y BGLl yn eu hawdurdod lleol. Dengys Siart 3.4 ar dudalen 18 nifer yr aelodau cyfetholedig ac etholedig sydd gan bob panel craffu'r BGLl. Mae hefyd yn rhannu'n rhain yn ôl y math o banel (presennol a phenodedig). Dim ond pan fo bwrdd penodedig (nid panel craffu presennol na wahoddir unrhyw aelodau cyfetholedig i fynd iddo) y ceir bod aelodau cyfetholedig yn rhan o drefniadau craffu ar BGLlau. Nododd y CfPS (2012c) fod gan bwyllgorau yng Nghymru a Lloegr rhwng 10 a 13 o aelodau, ar gyfartaledd, yn ystod y cyfnod rhwng 2005-2010 ac mai 11 a 14 oedd cyfartaledd Cymru dros yr un cyfnod. Nododd y gwaith ymchwil hwn fod gan baneli craffu'r BGLl 12 o aelodau, ar gyfartaledd. Mae hyn yn fwy na'r ystod fwyaf cyffredin o aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu yng Nghymru a Lloegr a nodwyd yn arolwg y CfPS (2012a.), sef 6-10.

3.18 Mae'r aelodau cyfetholedig hyn yn cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau, ond mae'r aelodau cyfetholedig ar baneli craffu'r BGLl ym mhob un o'r pedwar awdurdod lleol yn cynrychioli sefydliad gwirfoddol

ar lefel y sir, gwasanaeth yr heddlu a rhywfaint o gynrychiolaeth o'r sector iechyd (Ymddiriedolaeth GIG, BILI). Cynrychiolwyd yr asiantaethau a'r sefydliadau canlynol unwaith ledled Cymru ar baneli craffu'r BGLl:

- elusen;
- y gwasanaeth Tân ac Achub;
- y gwasanaeth prawf;
- y sector preifat;
- grŵp cydraddoldebau.

3.19 Mae craffu yn gofyn am rai sgiliau penodol (Coleman et al, 2009), y mae angen eu datblygu. Un ffordd o wneud hyn yw drwy hyfforddiant priodol (Coleman et al, 2009). Nododd pob un o'r pedwar ymatebydd, y mae gan eu hawdurdodau lleol aelodau cyfetholedig, eu bod wedi cael hyfforddiant ar graffu ar y BGLl gan yr awdurdod lleol.

3.20 Fel y trafodwyd uchod, mae cyfethol yn golygu bod unigolion â diddordeb nas etholwyd, fel arfer uwch swyddogion o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn mynd i gyfarfodydd a gweithgareddau eraill y panel ac yn cyfrannu atynt (Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011). Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi nad oes angen iddynt gael hawliau pleidleisio (ibid). Nododd y swyddogion a ymatebodd i'r holiadur hwn fod gan bob un o'r aelodau cyfetholedig ar baneli craffu'r BGLl hawliau pleidleisio. Yn wir, pwysleisiodd un ymatebydd pa mor bwysig ydoedd bod gan aelodau cyfetholedig hawliau pleidleisio er mwyn sicrhau bod gwaith craffu ar BGLlau yn effeithiol a bod pob aelod yn teimlo'n gydradd (mae hyn yn ffactor galluogi pwysig er mwyn sicrhau gwaith craffu ar BGLlau effeithiol, a drafodir isod).

3.21 Mae aelodau etholedig yn rhan annatod o drefniadau trosolwg a chraffu (Snape a Dobbs, 2003). Disgwylir i aelodau etholedig anweithredol gymryd rhan mewn pwyllgorau trosolwg a chraffu (Deddf Llywodraeth Leol 2000). Fodd bynnag, mae ganddynt rolau eraill yn

ogystal â throsolwg a chraffu. Gall rolau aelodau etholedig gynnwys un neu ragor o'r canlynol: cynrychiolydd, arweinydd cymunedol, lluniwr polisi, dilynwr monitro a chynnydd ac ymgyrchydd plaid (Snape a Dobbs, 2003; Wilson a Game, 1998).

3.22 Mae cryn dipyn o wahaniaeth rhwng awdurdodau lleol o ran nifer yr aelodau etholedig sy'n eistedd ar baneli craffu'r BGLl. Dengys Siart 3.4 ar dudalen 18 faint o aelodau etholedig sydd gan bob panel craffu. Y cyfartaledd yw wyth, ond pum aelod etholedig sydd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar eu paneli craffu'r BGLl.

3.23 Mae dewis cadeirydd panel craffu'r BGLl yn allweddol. Nododd CRG (2007) fod rôl y cadeirydd yn hollbwysig a chanfu fod y dull penodi yn amrywio ond bod pryder bod y broses o benodi cadeiryddion yn cael ei reoli, o bosibl, gan y weithrediaeth. Mae chwech o'r paneli BGLl wedi gofyn i aelodau etholedig, sydd eisoes yn cadeirio pwyllgorau eraill, gadeirio panel craffu'r BGLl. Mae gan ddau banel craffu'r BGLl gadeiryddion nad ydynt yn rhan o'r awdurdod lleol. Ni nododd dau o'r ymatebwyr enw na rôl yr unigolyn sy'n cadeirio panel craffu'r BGLl.

3.24 Mae amlder cyfarfodydd rhwng cadeiryddion y BGLl a'r panel craffu yn amrywio. Nododd pump o'r 11 yr oedd ganddynt ryw fath o system ar gyfer craffu ar y BGLl nad oedd cadeirydd y BGLl a chadeirydd panel craffu'r BGLl erioed wedi cyfarfod yn ffurfiol. Dywedodd dau ymatebydd fod y cadeiryddion hyn yn cyfarfod yn ôl yr angen neu pan ofynnir am gyfarfod a dywedodd un ymatebydd fod cadeiryddion y ddau banel yn cyfarfod unwaith y mis. Mewn un awdurdod lleol, ni all cadeirydd panel craffu'r BGLl ddod o'r un sefydliad â'r is-gadeirydd, sy'n golygu bod ymdrech yn cael ei gwneud i gynnal annibyniaeth gymaint â phosibl.

3.25 Nododd un cyfwelai fod gan y BGLl ddiddordeb mewn newid y ffordd y creffir ar y BGLl drwy annog y cyhoedd i gymryd rhan yn y gwaith. Y syniad yw defnyddio fforwm cyhoeddus yn ogystal â grŵp rhanddeiliaid i graffu ar y BGLl. Mewn awdurdod lleol arall, mae

mesur 2011 wedi cael dylanwad cadarnhaol ar awydd y BGLl i ymgysylltu â chyrff eraill megis y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu, fel darpar bobl ddynodedig.

**Y cymorth presennol ar gyfer gweithgarwch craffu ar BGLlau a dewisiadau ar gyfer y dyfodol**

3.26 Ystyrir bod cymorth ar gyfer gweithgarwch craffu yn arbennig yn bwysig (CRG, 2007; CfPS, 2012c). Mae cymorth yn cynnwys swyddogion craffu, rheolwyr, cymorth gweinyddol, yn ogystal â chymorth o asiantaethau allanol megis CLlLC, Llywodraeth Cymru a'r CfPS. Canfu CRG (2007) fod yr adnoddau a neilltuir ar gyfer gweithgarwch trosolwg a chraffu yng Nghymru yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Roedd statws a chyllidebau craffu swyddogion craffu yn amrywio (CRG, 2007). Mae'r amrywiad hwn yn adlewyrchu'n rhannol faint yr awdurdod lleol, ond, yn gyffredinol, roedd mwy o adnoddau yn golygu canfyddiad bod prosesau craffu yn gweithio’n well.

3.27 Yng Nghymru, ceir nifer o ffynonellau a all roi cymorth i swyddogion craffu, yn ogystal ag aelodau anweithredol (a ddylai gymryd rhan mewn prosesau craffu) a chrafwyr cyfetholedig. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i aelodau etholedig a swyddogion ar ffurf rhwydweithiau a hyfforddiant. Mae Swyddfa Archwilio Cymru ar hyn o bryd yn rheoli prosiect gwerthuso gweithgarwch craffu a arweinir gan awdurdodau lleol, ond mae hefyd wedi cyfrannu at y broses o ddatblygu gweithgarwch craffu mewn awdurdodau lleol o ganlyniad i'w hadroddiadau blynyddol ar awdurdodau lleol. Mae Banc Amser Craffu a gynhelir gan Ben-y-bont ar Ogwr yn galluogi swyddogion craffu o bob rhan o Gymru i roi o'u hamser i gefnogi eu cydweithwyr ar draws awdurdodau lleol ac wedyn hawlio'r amser hwnnw yn ôl drwy gael cymorth gan eu cymheiriaid. Mae gan y wefan ‘vault’ hefyd, sy'n cynnwys adroddiadau a dogfennau eraill sy'n ymwneud â chraffu a

lanlwythwyd gan swyddogion craffu. Mae hwn yn wasanaeth ‘hunan-reoli’ ar y we sy'n dibynnu ar ei ddefnyddwyr yn cyfrannu ato.

3.28 Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn elusen sy'n:

> ymroddedig i hyrwyddo theori ac arfer llywodraethu da, ac egwyddorion atebolrwydd, tryloywder a chyfranogiad (CfPS, 2012b, y we).


Mae'n darparu hyfforddiant, llenyddiaeth a chymorth i grafwyr ac mae wrthi'n datblygu rhaglen o gymorth ar gyfer gweithgarwch craffu yng Nghymru. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol ar gyfer gweithgarwch craffu ar ffurf y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu (SDF) rhwng 2008 a 2011, y byddai awdurdodau lleol yn cyflwyno cais am gymorth iddi er mwyn helpu i ariannu eu prosiectau craffu arloesol. At hynny, mae'n bosibl y bydd y swyddogion craffu yn gallu defnyddio cymorth mewnol ychwanegol, megis staff gweinyddol.

3.29 Y chwe ffynhonnell hyn o gymorth oedd ffocws dau o'r cwestiynau, a holodd am y cymorth ychwanegol a oedd ar gael i'r swyddogion craffu i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r mathau o gymorth y nododd y swyddogion craffu eu bod yn gallu cael gafael arnynt yn amrywio. Dywedodd ugain ymatebydd fod cymorth craffu ychwanegol ar gael iddynt. Dywedodd naw o'r swyddogion craffu eu bod yn gallu cael cymorth o un ffynhonnell. Dywedodd pump eu bod yn gallu cael cymorth o bedair ffynhonnell; dywedodd tri eu bod yn gallu cael cymorth o ddwy ffynhonnell a dywedodd dau eu bod yn gallu cael cymorth o dair a phum ffynhonnell yn y drefn honno.

3.30 Dengys Siart 3.5 isod nifer y swyddogion sy'n gallu cael cymorth o wahanol sefydliadau. Daw'r math mwyaf poblogaidd o gymorth ychwanegol, o bell ffordd, o CLILC a ariennir gan Lywodraeth Cymru, am i 13 o swyddogion craffu nodi eu bod yn gallu cael cymorth gan CLILC, gan gynnwys rhwydwaith y swyddogion craffu a chymorth aelodau. Nododd 11 o ymatebwyr eu bod yn gallu cael cymorth mewnol. Roedd staff rhan-amser a staff rheoli yn rhoi cyfrif am

rywfaint o'r cymorth hwn, yn ogystal ag aelodau eraill o staff (swyddogion) sy'n cyflawni rôl cymorth craffu yn ogystal â'u rolau eraill o fewn yr awdurdod lleol. Nododd saith ymatebydd eu bod yn gallu cael cymorth ychwanegol gan y Banc Amser Craffu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nododd chwe ymatebydd eu bod yn gallu cael cymorth gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus (CfPS), o'i gwefan a thrwy eu defnydd o'r Gronfa Datblygu Gwaith Craffu.

**Siart 3.5: Nifer y swyddogion a all gael cymorth gan sefydliadau gwahanol**




3.31 Ysgogwyd y prosiect arbennig hwn yn rhannol gan yr angen i roi cymorth i'r awdurdodau lleol hynny nad ydynt wedi gwneud trefniadau eto ar gyfer craffu ar BGLlau, yn ogystal â'r rhai sydd wedi sefydlu systemau ar gyfer craffu ar BGLlau. Felly, gallai canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn gyfrannu at y broses o ddarparu cymorth ar gyfer craffu ar BGLlau yn y dyfodol. Gan gofio hyn, gofynnwyd i swyddogion craffu nodi pa fath o gymorth yr hoffent ei gael yn y dyfodol. Gofynnwyd iddynt ddewis tri opsiwn 'a ffefrir' o restr o wyth. Dengys Tabl 3.2 isod yr opsiynau a nifer yr ymatebwyr a ddewisodd bob un.

**Tabl 3.2: Yr opsiynau a ffafriwyd gan ymatebwyr ar gyfer cymorth yn y dyfodol *(nodir yr atebion a roddwyd amlaf mewn print trwm)***

| ***Opsiwn o ran cymorth ar gyfer gweithgarwch craffu ar BGLlau*** | ***Amlder*** |
|---|---|
| **Datblygu a lledaenu arfer gorau ac astudiaethau achos drwy E-lythyr Craffu ar BGLlau** | **8** |
| **Datblygu Pecyn Adnoddau ar gyfer Craffu ar BGLlau. Byddai'r pecyn hwn yn cynnwys templedi adroddiadau, cylch gorchwyl drafft, modelau gwahanol strwythurau craffu, sut i ddatblygu blaenraglen waith, cyngor ar ddulliau ymchwil ar gyfer Craffu ar BGLlau.** | **15** |
| Gweithdai a seminarau rhanbarthol ar Graffu ar BGLlau | 7 |
| Gweithdai a seminarau cenedlaethol ar Graffu ar BGLlau | 2 |
| Gweithdai a seminarau o fewn cynghorau unigol ar Graffu ar BGLlau | 7 |
| Help i olygu adroddiadau ac argymhellion Craffu ar BGLlau | 2 |
| Gweithgarwch adolygu gan gymheiriaid, megis mynychu, arsylwi a dadansoddi cyfarfodydd Craffu ar BGLlau | 2 |
| **Rhoi cyflwyniadau a sesiynau cyngor i BGLlau a Phaneli/Byrddau/Pwyllgorau Craffu ar BGLlau** | **11** |

3.32 Fel y gallwch weld o Dabl 3.2, yr opsiwn mwyaf poblogaidd o bell ffordd oedd datblygu Pecyn Cymorth ar gyfer Craffu ar BGLlau, a ddewiswyd gan 15 o ymatebwyr fel un o'u tri opsiwn uchaf ar gyfer cymorth. Yr ail opsiwn mwyaf poblogaidd oedd rhoi cyflwyniadau a sesiynau cyngor i BGLlau a Phaneli/Byrddau/Pwyllgorau Craffu ar BGLlau, a ddewiswyd gan 11 o ymatebwyr fel un o'u tri opsiwn uchaf ar gyfer cymorth. Y trydydd opsiwn mwyaf poblogaidd oedd datblygu a lledaenu arfer gorau ac astudiaethau achos drwy E-lythyr Craffu ar BGLlau, y pleidleisiodd wyth swyddog craffu drosto fel rhan o'u tri opsiwn uchaf.

3.33 Holwyd y cyfweleion hefyd am gymorth ar gyfer craffu ar BGLlau. Yn gyffredinol, ystyrir bod angen cymorth swyddogion i gynllunio a pharatoi trefniadau craffu newydd a threfniadau craffu ar gyfer y dyfodol, rhannu arfer da ar lefel ranbarthol, gweinyddu gweithgarwch

craffu, hyfforddi crafwyr ac fel cyswllt ar gyfer aelodau cyfetholedig a thystion sy'n mynd i ddigwyddiadau a chyfarfodydd a arweinir gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd fod angen darparu adnoddau priodol ar gyfer cymorth swyddogion ar gyfer craffu ar BGLlau a bod angen iddo fod yn annibynnol ar gymorth BGLlau.

**Gweithgareddau Craffu ar BGLlau**

3.34 Canfu CRG (2007) fod nifer fach o baneli craffu yn defnyddio dulliau anffurfiol gan gynnwys sesiynau ‘taflu syniadau’ rhwng swyddogion a chynghorwyr, cynnal gweithdai cyhoeddus, ymweld â safleoedd perthnasol a chynnal gwasanaethau ‘cwsmer cudd’. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o weithgarwch craffu yn cynnwys cael tystiolaeth lafar gan dystion mewn cyfarfodydd ffurfiol (CRG, 2007). Disgrifir gweithgarwch craffu cyn gwneud penderfyniad neu weithgarwch craffu ‘cyfoes’, sy'n golygu bod gweithgarwch craffu yn cael ei gyflawni cyn i benderfyniadau gael eu gwneud gan weithrediaeth, gan rai o gyfranogwyr CRG (2007) fel ‘arfer da’. Gallai hyn hefyd ddatrys problem herio penderfyniadau a'r problemau gwleidyddol sy'n deillio o hynny (CRG, 2007).

3.35 Mae sawl cam pwysig sy'n tueddu i gael eu cymryd wrth graffu ar y BGLl. Mae datblygu cylch gorchwyl yn gam cyntaf pwysig i unrhyw banel neu bwyllgor. Yn wir, mae gan 10 o'r 11 o awdurdodau lleol sydd wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer craffu ar BGLlau gylch gorchwyl ar gyfer y trefniadau hynny. Mae Blaenraglen Waith hefyd yn rhan bwysig o unrhyw banel neu bwyllgor (CRG, 2007), a nododd saith swyddog fod gan banel craffu'r BGLl yn eu hawdurdod lleol flaenraglen waith. Ymgynghorwyd â'r BGLlau ynghylch y flaenraglen waith mewn pedwar o'r achosion hyn. Mae CRG (2007) o'r farn bod y flaenraglen waith yn bwysig, ond canfu eu bod yn amrywio o ran manylion ac ansawdd.

3.36 Mae grwpiau gorchwyl a gorffen yn un ffordd o wneud gwaith y pwyllgor craffu. Nododd saith swyddog fod paneli craffu'r BGLl yn eu

hawdurdodau lleol yn gallu ymgymryd ag ymchwiliadau tebyg i'r rhai a gyflawnir gan grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae'r gweithgareddau y mae paneli craffu'r BGLl wedi cymryd rhan ynddynt yn amrywio.

3.37 Dengys yr ymatebion i'r holiadur a amlinellir yn Nhabl 3.3 ar dudalen 27 fod saith panel craffu'r BGLl wedi cyfrannu at y broses o ddwyn y BGLl i gyfrif am Gytundebau Cyflenwi Lleol neu raglenni gwaith eraill a gynlluniwyd. Nododd tri o'r ymatebwyr fod panel craffu'r BGLl wedi cymryd rhan mewn ymchwiliadau tebyg i'r rhai a gyflawnir gan grwpiau Gorchwyl a Gorffen fel maent yn gysylltiedig â blaenoriaethau, prosiectau neu ffrydiau gwaith BGLlau. At hynny, dywedodd tri o'r ymatebwyr fod panel craffu'r BGLl yn cymryd rhan yn ymarfer gwerthuso blynyddol y BGLl. Nododd dau o'r ymatebwyr fod panel craffu'r BGLl yn cyfrannu at y gwaith o bennu cwmpas prosiectau â blaenoriaeth posibl ar gyfer BGLlau (craffu cyn gwneud penderfyniad), a nododd dau hefyd fod panel craffu'r BGLl yn gweithredu fel ymgynghorai ar gyfer Cytundebau Cyflenwi Lleol neu brosiectau eraill BGLlau.

3.38 At hynny, nododd pedwar ymatebydd fod paneli craffu'r BGLl yn eu hawdurdodau lleol wedi cyflawni gweithgareddau eraill. Dywedodd dau ymatebydd y byddai paneli craffu'r BGLl yn gweithredu fel ymgynghoreion ynghylch datblygu'r Cynllun Integredig Sengl. Nododd un ymatebydd fod panel craffu'r BGLl yn arsylwi cyfarfodydd y BGLl. Nododd un ymatebydd fod bwrdd craffu'r BGLl yn newydd ac y bydd yn dechrau ar ei waith craffu ym mis Hydref 2012, gan fabwysiadu dull thematig o graffu ar waith y BGLl.

**Tabl 3.3: Amlder gweithgareddau craffu penodol**

| Gweithgareddau Craffu | Amlder |
|---|---|
| Dal y BGLl i gyfrif am Gytundebau Cyflenwi Lleol neu raglenni gwaith eraill a gynlluniwyd | 7 |
| Ymchwiliadau tebyg i'r rhai a gyflawnir gan grwpiau Gorchwyl a Gorffen fel maent yn gysylltiedig â blaenoriaethau, prosiectau neu ffrydiau gwaith BGLlau | 3 |
| Cyfrannu at y gwaith o bennu cwmpas prosiectau â blaenoriaeth posibl ar gyfer BGLlau (craffu cyn gwneud penderfyniad) | 2 |
| Gweithredu fel ymgynghoreion ar gyfer Cytundebau Cyflenwi Lleol neu brosiectau BGLlau eraill | 2 |
| Cymryd rhan yn ymarfer gwerthuso blynyddol y BGLl | 3 |
| Arall | 4 |

3.39 Mae cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion i'r corff y creffir arno yn elfen bwysig o weithgarwch craffu. Mae adroddiad y CfPS (2012c), yn 2010, yn nodi, ar gyfartaledd, bod aelodau gweithredol awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn derbyn 85% ac yn gweithredu ychydig dros 60% o'r argymhellion a wneir gan bwyllgorau craffu. Nododd arolwg mwyaf diweddar y CfPS (2012a) canran yr agymhellion a dderbyniwyd wedi aros yn ddigyfnewid ar 85%, ond bod canran yr agymhellion a weithredwyd wedi cynyddu i 86%, a all awgrymu argymhellion o ansawdd gwell, neu argymhellion o safon llai heriol (CfPS, 2012a). Dywedodd tri swyddog fod panel craffu'r BGLl yn eu hawdurdod lleol wedi cyflwyno adroddiadau neu argymhellion ffurfiol i'r BGLl, ond dywedodd wyth nad oeddent wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad oes rhaid i'r BGLl weithredu ar unrhyw adroddiad neu argymhelliad a wna panel craffu.

3.40 Yn gyffredinol, o ran trefniadau eu hawdurdod lleol ar gyfer craffu ar y BGLl, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod eu hawdurdod

lleol wedi dechrau gwneud rhywfaint o gynnydd o ran datblygu trefniadau ar gyfer craffu ar y BGLl. Nododd tri ymatebydd fod eu hawdurdod lleol wedi rhoi trefniadau eithaf datblygedig ar waith, gan gynnwys cyfethol ac ymgysylltu rheolaidd â chynrychiolwyr traws-sector, a nododd pum ymatebydd nad oedd gan eu hawdurdod lleol unrhyw drefniadau ar gyfer craffu ar y BGLl ar waith ar hyn o bryd.

3.41 Roedd y cyfweliadau yn gyfle da i ymchwilio'n fwy trylwyr i'r hyn y mae ymatebwyr yn ei olygu pan ddywedant fod eu hawdurdod lleol wedi gwneud 'rhywfaint' o gynnydd o ran craffu ar BGLlau, neu fod gan eu hawdurdod lleol drefniadau 'eithaf' datblygedig ar gyfer craffu ar BGLlau. Pan fydd pwyllgor presennol yn craffu ar BGLl, ymddengys fod craffu yn golygu'r canlynol:

1) Mae'r panel presennol yn cael adroddiadau gan y BGLl.

2a) Mae'r panel yn gwneud sylwadau ar yr adroddiadau hynny; a/neu

b) Mae'r panel yn gofyn cwestiynau ynghylch yr adroddiadau hynny, a/neu

c) Mae'r panel yn gwneud argymhellion i'r BGLl ynglŷn â'r adroddiadau hynny.

3) Mae'r BGLl yn cael sylwadau/cwestiynau/argymhellion ac yn eu cydnabod.

3.42 Golyga hyn fod paneli presennol yn gallu cymryd trosolwg o waith y BGLl. Mewn cyferbyniad, ymddengys fod paneli penodol yn ymchwilio i brosiectau penodol BGLlau neu faterion sy'n pontio blaenoriaethau BGLlau. Mae'r gwahaniaeth hwn i'w ddisgwyl o gofio faint o amser y byddai pob math o banel yn gallu ei neilltuo yn ymarferol i graffu ar y BGLl.

3.43 Fodd bynnag, er gwaethaf y gwahaniaeth amlwg hwn yn y dull o graffu ar BGLlau, mae gweithgareddau craffu cyffredinol yn tueddu i fod yn debyg ac yn cynnwys cael cyflwyniadau gan bobl allweddol; holi tystion; a rhannu arfer â sefydliadau eraill (gan gynnwys

awdurdodau lleol eraill a chyrff partner). Nid oedd cwmpas y prosiect hwn yn cynnwys asesu effeithiolrwydd gwahanol ddulliau o graffu ar BGLlau, ond bydd y casgliad yn nodi syniadau am feini prawf i'w defnyddio fel fframwaith ar gyfer disgrifio lefel ac ansawdd gweithgarwch craffu ar BGLl.


**Rhwystrau i graffu ar BGLlau**

3.44 Er gwaethaf yr ymateb cymysg i'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol 2000, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r agwedd trosolwg a chraffu ar y ddeddfwriaeth hon (Snape et al, 2002). Fodd bynnag, cydnabuwyd yn eang y byddai llawer o heriau yn gysylltiedig â'r swyddogaeth trosolwg a chraffu y byddai angen eu goresgyn er mwyn iddi weithio'n effeithiol (Snape et al, 2002). Mae amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n ystyried ac yn trafod y rhwystrau i waith craffu effeithiol. Gofynnodd yr holiadur i'r ymatebwyr restru'r tri rhwystr pwysicaf i waith craffu effeithiol, yn eu barn hwy. Yn y cyfweliadau, holwyd yr ymatebwyr am y pethau yr ystyrient eu bod yn heriau allweddol i weithgarwch craffu ar BGLlau.

3.45 Cydnabyddir yn eang bod rôl y crafwr yn cwmpasu sgiliau a rhinweddau y mae angen eu datblygu drwy hyfforddiant (Coleman et al, 2009). Mae llawer o sylwebyddion yn cyfeirio at ddiffyg gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith cynghorwyr fel rhwystrau penodol (Wilson a Game, 1998; Snape et al, 2002). Dengys Siart 3.6 ar dudalen 26 mai'r rhwystr i graffu ar BGLlau y cyfeiriwyd ato amlaf oedd diffyg dealltwriaeth o rôl y BGLl, y ffordd y mae'n gweithredu ar wahân i sefydliadau partner a sut y dylid ymgymryd â gwaith craffu. Nododd pedwar o'r chwe ymatebydd a gyfwelwyd fod diffyg sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a hyfforddiant gwael neu ddim hyfforddiant yn rhwystrau i graffu ar BGLlau. Nododd CRG (2007) mai'r rheswm yn rhannol nad oedd gweithgarwch craffu wedi

gwireddu ei botensial oedd am nad oedd cynghorwyr wedi ‘deall y cysyniad’ ac nad oedd ganddynt y sgiliau priodol.

**Siart 3.6 Cyfran yr ymatebion am y rhwystrau gwahanol i graffu ar BGLlau**




3.46 Yr ail rwystr mwyaf cyffredin a nodwyd oedd prinder amser**,** a baich gwaith trwm a phrinder adnoddau ar gyfer pwyllgorau craffu, swyddogion, aelodau cyfetholedig ac aelodau etholedig. Yn yr un modd, canfu CRG (2007) fod rhai o'r farn nad yw gweithgarwch craffu yn gwneud defnydd effeithiol o amser aelodau a swyddogion (CRG 2007, tud29). Fodd bynnag, mae Snape et al (2002) y nodi mai un o'r amodau allweddol ar gyfer gwaith craffu effeithiol yw cymorth swyddogion effeithiol ac uniongyrchol.

3.47 Mae cynghorwyr yng Nghymru yn tybio bod adnoddau a chymorth technegol yn dylanwadu ar effeithiolrwydd gweithgarwch craffu lleol (Ashworth, 2003). Nododd tri ymatebydd a gyfwelwyd fod prinder adnoddau ac arian neu ddiffyg gallu yn rhwystr i weithgarwch craffu. Canfu CRG (2007) fod yr adnoddau a ddarperir yn amrywio rhwng

awdurdodau lleol yng Nghymru. Nododd Wilson a Game (1998) fod prinder adnoddau penodol yn atal gweithgarwch craffu rhag gwireddu ei botensial llawn. Holodd y CfPS am arian yn ei harolwg blynyddol o weithgarwch craffu yng Nghymru a Lloegr. Canfu ei dadansoddiad o arolygon a gynhaliwyd dros gyfnod o wyth mlynedd fod cyllidebau ar gyfer y swyddogaeth graffu wedi bod yn lleihau (CfPS, 2012c).

3.48 Er na ofynnwyd unrhyw gwestiwn penodol am arian yn yr ymchwil hon, nododd pedwar ymatebydd i'r holiadur fod diffyg adnoddau yn rhwystr i waith craffu effeithiol. Yn y cyfweliadau, nododd un swyddog craffu fod prosiect peilot i graffu ar y BGLl wedi'i ddirwyn i ben oherwydd prinder arian ac mai dim ond yn ddiweddar y mae wedi ailddechrau am fod yr awdurdod lleol wedi dod o hyd i rywfaint o arian i gyflogi swyddog cymorth rhan-amser. Fodd bynnag, dim ond am flwyddyn y mae'r arian ar gael, ac oni bai bod yr awdurdod lleol yn gallu ariannu'r rôl gynorthwyo y flwyddyn nesaf a'i fod yn barod i wneud hynny, mae amheuaeth ynghylch dyfodol y panel craffu.

3.49 Canfu'r CfPS (2012a) fod a wnelo effeithiolrwydd trefniadau craffu awdurdod lleol yn fwy â diwylliant na strwythur. Yn y cyfweliadau a'r ymatebion i'r holiadur ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, nodwyd bod materion diwylliannol yn rhwystr i graffu ar BGLlau. Y trydydd rhwystr mwyaf cyffredin a nodwyd yn yr ymatebion i'r holiadur oedd diffyg ymgysylltu ar ran partneriaid, y BGLl a chynghorwyr. Mae perswadio cynghorwyr i ymgysylltu â'r rôl trosolwg a chraffu yn rhwystr cyffredin a nodwyd yn y llenyddiaeth (Wilson a Game, 1998). Nododd CRG (2007) fod lefel yr ymrwymiad i weithgarwch craffu yn amrywio rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru.

3.50 Nododd llai o ymatebwyr fod ystyriaethau gwleidyddol yn rhwystr i graffu ar BGLlau. Canfu'r CfPS (2012a) yn ei harolwg o Gymru a Lloegr fod 47% o'r ymatebwyr o'r farn bod gwleidyddiaeth bleidiol yn effeithio ‘gryn dipyn’ ar weithgarwch craffu. Nododd CRG (2007) yr ystyrir bod craffu yn rôl i lywodraeth leol yn unig ac nad ystyrir ei fod yn ymwneud â chraffu ar bartneriaid. Mae hyn yn rhywbeth y mae

llawer o sylwebyddion yn cyfeirio ato yn eu trafodaethau ynghylch gwaith craffu effeithiol (Wilson a Game, 1998). Mewn arolwg o gynghorwyr yng Nghymru, nodwyd eu bod o'r farn bod ystyriaethau gwleidyddol, megis goruchafiaeth un blaid a'r gydberthynas rhwng y weithrediaeth a gweithgarwch craffu, yn dylanwadu ar effeithiolrwydd gweithgarwch craffu lleol (Ashworth, 2003). Mae Snape et al (2002) yn nodi mai un o'r amodau allweddol ar gyfer gwaith craffu effeithiol yw gweithio mewn modd nad yw'n bartisan. Canfu CRG (2007) fod aelodau yn aml yn amharod i ddwyn cydweithwyr o'u plaid wleidyddol i gyfrif.

3.51 Un o'r amodau allweddol ar gyfer gwaith craffu effeithiol yw arweinyddiaeth ac ymgysylltu ar ran yr aelodau (Snape et al, 2002). Fodd bynnag, soniodd tri chyfwelai am y ffordd roedd agweddau aelodau at graffu ar y BGLl yn ei rwystro. Dywedodd un fod aelodau a phartneriaid yn ddidaro ynghylch craffu ar y BGLl; roedd yr aelodau o'r farn na allent weld sut y gallai craffu ar y BGLl wneud gwahaniaeth effeithiol. Mae defnyddio aelodau cyfetholedig yn golygu bod yr awdurdodau lleol hyn yn cefnogi'r ymgyrchoedd i weithio mewn partneriaeth a hyrwyddo cydweithio, ond mae hefyd yn golygu cynnwys partneriaid nad oes ganddynt fandad democrataidd. Nododd CRG (2007) fod llawer o gynghorwyr yn pryderu nad oedd rhai partneriaethau yn atebol yn ddemocrataidd.

3.52 Dywedodd rhai ymatebwyr fod diffyg canllawiau gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys canllawiau ar Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a gofynion newydd a diffyg adnoddau oll yn rhwystrau i graffu ar BGLlau. Dywedodd un cyfwelai mai rhan o'r rheswm dros beidio â chraffu ar y BGLl oedd nad oedd unrhyw ganllawiau pendant ar gael gan Lywodraeth Cymru ar sut y dylid craffu ar BGLlau (cyfweliad 4). Gofynnwyd i'r cyfweleion roi eu barn ar ddarpariaeth y person dynodedig a nodir ym Mesur 2011, a nododd dau ohonynt y gallai fod problemau, yn gyntaf o ran faint o bŵer a fyddai gan baneli craffu annibynnol i orfodi'r personau dynodedig i ddod i'w cyfarfodydd, ac yn


ail o ran ai'r BGLl neu'r panel craffu a fyddai'n gyfrifol am alw'r personau dynodedig i mewn. Dadleuodd Mckenna (2012) fod nifer o bobl mewn llywodraeth leol yn aros am ganllawiau terfynol (McKenna 2012, tud. 6).

3.53 Argymhellir cynnwys y cyhoedd fel rhan o waith craffu da (CfPS, 2012c; Martin et al, 2011). Dangosodd arolwg y CfPS (2012) fod ychydig dros hanner (52%) yr ymatebwyr yng Nghymru a Lloegr yn honni nad oedd eu hawdurdod lleol yn cael nac yn mabwysiadu unrhyw awgrymiadau gan y cyhoedd. Fodd bynnag, nid yw'r nifer hon yn cynnwys awgrymiadau cynghorwyr sy'n deillio o'u gwaith yn eu wardiau. At hynny, nid yw'n golygu nad yw'r dinesydd yn cael ei ystyried wrth wneud gwaith craffu. Yn yr ymchwil hon, dengys yr astudiaethau achos i sefyllfa a barn y dinesydd gael eu hystyried wrth holi aelodau gweithredol, ond fel arall ni chyfeiriodd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil hon o gwbl at gynnwys y cyhoedd, sy'n awgrymu mai ychydig iawn o ddefnydd a wneir o hyn.

### Goresgyn rhwystrau i graffu ar BGLlau

3.54 Yn yr holiadur, gofynnwyd i'r ymatebwyr gynnig atebion posibl i oresgyn rhwystrau a nodi beth oedd y tri ffactor pwysig sy'n ysgogi gwaith craffu effeithiol, yn eu barn hwy. Dengys Siart 3.7 gyfran yr ymatebion ynghylch goresgyn rhwystrau i graffu ar BGLlau.

**Siart 3.7: Cyfran yr ymatebion ynghylch goresgyn rhwystrau i graffu ar BGLlau**




3.55 I ateb y cwestiwn am oresgyn rhwystrau, y dull mwyaf cyffredin o oresgyn rhwystrau i graffu ar BGLlau a nodwyd oedd gwella dealltwriaeth a gwybodaeth am rolau, pwerau, diben a chyfrifoldeb unigolion a gweithgarwch craffu yn gyffredinol. Mae hyn i'w ddisgwyl o gofio bod diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth wedi'u nodi fel rhwystr allweddol i graffu ar BGLlau.

3.56 Ceir amrywiaeth o ran faint o wybodaeth a phrofiad sydd gan aelodau paneli, p'un a ydynt yn aelodau etholedig neu gyfetholedig, o weithgarwch craffu. Gall aelodau cyfetholedig ddod o sefydliadau lle nad yw'r math hwn o weithgarwch craffu yn cael ei gyflawni (CfPS, 2009). I'r gwrthwyneb, gallant fod yn ymwybodol iawn o weithgarwch craffu a sut i'w gyflawni. Nid yw cynghorwyr newydd yn gyfarwydd â gweithgarwch craffu a threfniadau'r awdurdod lleol, rhywbeth a nodwyd gan y cyfweleion. Mewn cyferbyniad, mae aelodau sefydledig, cyfredol yn ymwybodol o weithgarwch craffu ac mae'n debyg eu bod wedi'i gyflawni. Fodd bynnag, gall fod yn anodd defnyddio hyfforddiant i oresgyn diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth,

am nad oes gan aelodau cyfetholedig yr amser, o reidrwydd, i fynd i sesiynau hyfforddi ar waith craffu yn ychwanegol at eu swyddi llawn amser a'u hymrwymiadau eraill (CfPS, 2009).

3.57 Mae cyfweliadau â swyddogion craffu yn awgrymu, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, fod pob aelod newydd yn cael hyfforddiant safonol, cyffredinol ar y ffordd y mae'r awdurdod lleol yn gweithio, y swyddogaeth graffu a rolau'r aelodau y tu mewn iddi, a'r BGLl a'i rôl. Fodd bynnag, mae'r hyfforddiant hwn yn annhebygol o gyfeirio'n benodol at graffu ar y BGLl.

3.58 Yn ail ffordd fwyaf cyffredin o oresgyn rhwystrau a nodwyd oedd meithrin ymddiriedaeth a chydberthnasau drwy fod yn agored a chyfathrebu. Canfu CRG (2007) fod llawer o'r farn bod gweithio mewn partneriaeth i'w briodoli i 'bersonoliaethau'. Yn yr ymchwil hon, roedd partneriaid cyfetholedig ond wedi'u cynnwys ar bedwar panel craffu'r BGLl. Fodd bynnag, dangosodd swyddogion craffu o dri o'r pedwar panel craffu hyn fod gweithio mewn partneriaeth yn cael ei groesawu ar y cyfan. Ystyrir bod canfyddiadau pobl o werth gweithgarwch craffu yn bwysig i'r diwylliant lle mae'r gweithgarwch craffu yn cael ei gyflawni (CfPS, 2012a). Dywed y CfPS (2012a):

> er mwyn i waith craffu gael ei weld yn gweithio'n effeithiol, rhaid i'r swyddogion gweithredol a'r crafwyr wneud ymdrech i lunio perthynas bositif (tud.20).

3.59 Dengys y llenyddiaeth fod peidio â herio tystion ddigon am eu bod yna oherwydd 'ewyllys da' yn hytrach na grym statudol yn rhwystr i waith craffu effeithiol. Gall y tensiwn hwn rhwng gwaith craffu da, dyletswydd statudol ac 'ewyllys da' a nodwyd gan CRG (2007) fod yn bresennol mewn prosesau craffu ar BGLlau. Fodd bynnag, gall y broblem hon gael ei datrys gan ddarpariaeth y person dynodedig. At hynny, gellir ei datrys drwy groesawu tystion, darparu amgylchedd cefnogol a gofyn cwestiynau adeiladol, y gellir gwella pob un ohonynt drwy well addysg a hyfforddiant a gwell strwythurau ar gyfer

cyfarfodydd. Nododd y CfPS (2012a) fod ei harolwg mwyaf diweddar wedi dangos bod y rhai sy'n cael eu dwyn i gyfrif at ei gilydd yn barod i gydweithredu, ond bod angen gwneud rhagor o waith ymchwil i nodi a yw'r cydweithredu ar faterion beirniadol, heriol yn waeth.


3.60 Mae cryn dipyn o ymchwil ar yr hyn sy'n gwneud gwaith craffu ar BGLlau yn effeithiol. Pan gafodd BGLlau eu treialu yn 2006, ni ragnododd Llywodraeth Cymru yr hyn y dylai BGLlau ei wneud, sut y dylent weithredu ac ni ragnododd pwy a ddylai fod yn aelod o BGLl. Mae gan awdurdodau lleol a'u partneriaid ryddid i arloesi (CfPS, 2009). Mae'r ymchwil hon wedi dangos y byddai rhai awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi rhagor o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Yn wir, ystyriwyd mai un o'r ffactorau allweddol sy'n ysgogi gweithgarwch craffu ar BGLlau yw'r hwb gan Lywodraeth Cymru, o ran y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu a mesur 2011 yn arbennig.

3.61 Ychydig o'r ymatebion i'r holiadur a oedd yn ymwneud  â chael rhagor gymorth, o ran prif swyddogion sefydliadau partner a chymorth swyddogion gan yr awdurdod lleol. Yn yr un modd, canfu CRG (2007) fod canfyddiad bod bodolaeth eiriolwr corfforaethol yn ysgogi gweithgarwch craffu. Yn y cyfweliadau, ni fanylodd swyddogion craffu ar y mater hwn, ond nodwyd y dylai cymorth fod o ansawdd da. Roedd hyn yn cynnwys cymorth i rannu arfer da a hyfforddiant o ansawdd da a gall olygu bod angen mwy o amser ar swyddogion cymorth i roi cymorth o ansawdd da.

### Ffactorau sy'n ysgogi gweithgarwch craffu ar BGLlau

3.62 Gofynnodd yr holiadur i'r ymatebwyr roi eu barn ar y tri ffactor sy'n ysgogi gweithgarwch craffu ar BGLlau. Dengys Siart 3.8 isod gyfran yr ymatebion ynghylch ffactorau sy'n ysgogi gweithgarwch craffu ar BGLlau.

**Siart 3.8: Cyfran yr ymatebion am ysgogwyr craffu ar BGLlau**




3.63 Roedd y sylw mwyaf cyffredin ynghylch ffactorau sy'n ysgogi gweithgarwch craffu ar BGLlau yn ymwneud â'r agenda cydweithio a phartneriaeth. Ategir hyn gan waith ymchwil a wnaed gan eraill (CRG, 2007), a ddangosodd fod gweithio mewn partneriaethau a strategaethau cymunedol yn dod yn fwyfwy pwysig. Yn wir, gofynnodd y CfPS (2012a) i'w hymatebwyr nodi beth fyddai gweitharwch craffu yn ei olygu ymhen 10 mlynedd; roedd 54% o'r farn y byddai'n canolbwyntio mwy ar bartneriaethau. Fodd bynnag, nododd CRG (2007) nad oedd partneriaeth ar flaen meddyliau aelodau etholedig a bod swyddogion o'r farn nad oedd y rhan fwyaf o gynghorwyr yn ymgysylltu'n llawn â'r rôl partneriaeth. Yn yr ymchwil hon roedd profiadau yn amrywio: dangosodd cyfweliadau â swyddogion craffu fod rhai cynghorwyr yn amharod i gynnwys partneriaid cyfetholedig mewn prosesau craffu am nad oes ganddynt fandad democrataidd. Mewn cyferbyniad, roedd rhai swyddogion craffu o'r farn bod eu cynghorwyr yn ymwneud llawer iawn â'r agenda partneriaeth.

3.64 Mae'r llenyddiaeth ymchwil a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu yr ystyrir bod y swyddogaeth graffu yn sicrhau

effeithiolrwydd ac atebolrwydd llywodraeth leol a phrosesau darparu gwasanaethau. Yn wir, yr ail ffactor ysgogi mwyaf cyffredin a nodwyd oedd yr agenda atebolrwydd, dan arweiniad cynghorwyr a Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd, cafwyd nifer o sylwadau hefyd ynghylch yr angen a'r awydd i herio'r BGLl.

3.65 At hynny, cyfeiriodd saith ymateb i'r holiadur at gynnwys y cyhoedd, gan ganolbwyntio ar y cyhoedd a'r awydd a'r angen i gael y gorau i'r sir a'i dinasyddion. Nododd CRG (2007) fod cynnwys rhanddeiliaid allanol gan gynnwys y cyhoedd, partneriaid gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol, ac arbenigwyr sefydledig yn cael eu hystyried gan sawl cyfwelai fel un o brif benderfynyddion llwyddiant trosolwg a chraffu (tud.41). Mae hyn yn bwysig am mai craffu ar y BGLl yw'r maes lle y gellid bod wedi cynnwys yr unigolion hyn.

3.66 Cafwyd rhai sylwadau hefyd ynghylch yr hwb gan Lywodraeth Cymru a swyddogion llywodraeth leol yn ysgogi gweithgarwch craffu ar BGLlau. Ymddengys fod hyn yn awgrymu nad yw craffu ar y BGLl yn weithgaredd a arweinir gan aelodau na phartneriaid. Ymddengys fod y cyfweleion yn cadarnhau hyn. Nododd swyddogion fod trefniadau ar gyfer BGLlau wedi datblygu allan o drafodaethau rhwng swyddogion, fod y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu yn ffactor ysgogi ar gyfer dechrau craffu ar BGLlau a bod aelodau a phartneriaid wedi'u cyfarwyddo i ymgymryd â gwaith craffu ar BGLlau. Mae cysylltiad agos iawn rhwng hyn a'r rhwystr sydd i'w briodoli i ddiffyg ymgysylltu ar ran aelodau a phartneriaid.

**Astudiaethau achos**

3.67 Mae'r ddau achos canlynol yn cynnig enghreifftiau o'r ffordd y mae gweithgarwch craffu ar BGLlau wedi'i ddatblygu mewn dau awdurdod lleol gwahanol. Er er ymddengys fod yr enghreifftiau yn debyg o ran eu dull gweithredu, mae gwahaniaethau pwysig rhyngddynt. Ni ddylid eu defnyddio fel cyfarwyddiadau i gyflawni gweithgarwch craffu da. Yn

lle hynny, mae'r achosion hyn yn dangos strategaethau posibl ar gyfer goresgyn rhwystrau cyffredin i waith craffu ar BGLlau effeithiol.

3.68 Ystyriwyd y ddau achos hyn o'r blaen. Defnyddiwyd achos Rhondda Cynon Taf gan Downe ac Ashworth (2011) yn eu hadolygiad o'r Gronfa Datblygu Gwaith Craffu, a chan Lywodraeth Cymru yn ei chanllawiau ar gyfer Mesur Llywodraeth (Cymru) 2011. Adolygwyd achos Caerdydd gan y CfPS (2009) a chyfeiriwyd ato yn ystod adolygiad CCC o'r cynlluniau peilot ar gyfer BGLlau (2008) . Fodd bynnag, nid yw'n fwriad gan yr adroddiad hwn ailadrodd yr hyn y mae eraill eisoes wedi'i ddweud. Yn lle hynny, bydd yr adran hon yn ystyried sut mae awdurdodau lleol wedi dewis ymateb i'r heriau y maent wedi'u hwynebu wrth ddatblygu eu systemau ar gyfer craffu ar y BGLl. Wrth wneud hynny, cyfeirir ar yr heriau a'r ffactorau galluogi a nodir drwy gydol yr adroddiad hwn ac a gymerwyd o'r llenyddiaeth a'r gwaith ansoddol a wnaed fel rhan o'r ymchwil hon, yn y ddwy astudiaeth achos.

# 4 Astudiaeth Achos 1: Rhondda Cynon Taf

Mae'r astudiaeth achos hon yn defnyddio'r gwaith a wnaed gan Gyngor Rhondda Cynon Taf ar Gam-drin Domestig i ddangos dulliau posibl o fynd i'r afael â rhai heriau cyffredin i weithgarwch craffu ar BGLlau. Mae manylion mwy penodol am y prosiect hwn wedi'u cofnodi mewn mannau eraill, fel y nodwyd uchod.

**Rhondda Cynon Taf – Craffu ar brosiect Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig y BGLl.**

*Manylion cyffredinol*

Mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf bum Pwyllgor Craffu, y mae un ohonynt, sef y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn rhiant-Bwyllgor y gweithgor craffu ar y BGLl. Roedd aelodaeth y Gweithgor yn cynnwys pum Cynghorydd o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a chynrychiolwyr o Awdurdod yr Heddlu, y Sector Gwirfoddol a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Gwnaeth y Cyngor gais i'r Gronfa Datblygu Gwaith Craffu (SDF) yn 2009 a dyfarnwyd swm o £10,000 iddo, yr ychwanegodd £4,000 ato. Nod y prosiect oedd ystyried y ffordd orau o graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol drwy edrych yn gyntaf ar sut roedd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn perfformio o ran un o'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd ganddo, sef "Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig". Yn dilyn cyfnod cynllunio daeth y gweithgor at ei gilydd ar gyfer ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2010. Cyhoeddodd y gweithgor adroddiad interim ym mis Ionawr 2011 a daeth y prosiect i ben ym mis Gorffennaf 2011 pan gyhoeddwyd adroddiad terfynol. Yn ystod y cyfnod hwn cynhaliwyd 11 cyfarfod o'r gweithgor.

*Her 1: Ar beth y dylai gweithgarwch craffu ar y BGLl ganolbwyntio?*

| |
|---|
| Ffocws<br>Ymgysylltu ag aelodau'r panel |

Ffocws y prosiect hwn oedd un o flaenoriaethau'r BGLl, sef Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig. Nod y prosiect oedd dysgu gwersi drwy wneud darn bach o waith y gellid ei ddefnyddio yn ddiweddarach i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gyffredinol neu barhau â'r cysyniad o ymdrin â meysydd â blaenoriaeth yn unigol. Cyn dechrau ar y prosiect, ceisiodd swyddogion gytundeb y BGLl a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Nododd y gweithgor yn gynnar fod angen herio cadernid Cynllun Gweithredu ar Gam-drin Domestig y BGLl, a oedd yn cynnwys cyfweld ag uwch gynrychiolwyr y BGLl o'r prif asiantaethau partner, h.y. y Cyngor, Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Cwm Taf ac Interlink.

*Her 2: Diffyg sgiliau, dealltwriaeth a gwybodaeth am weithgarwch craffu a'r BGLl.*

Er mwyn i'r gweithgor gyflawni ei brosiect craffu yn llwyddiannus a gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth, roedd yn hanfodol sicrhau bod gan bob un o'i aelodau ddealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau ei gilydd.

Er mwyn gwneud hyn, rhoddodd Prif Weithredwr Rhondda Cynon Taf, yn ei rôl fel Cadeirydd y BGLl, gyflwyniad i'r aelodau craffu ar rôl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Yn yr un modd, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor gyflwyniad ar rôl gwaith craffu i'r aelodau partner a enwebwyd i'r grŵp cyn y cyfarfod cyntaf.

Gwybodaeth
Dealltwriaeth
Sgiliau
Hyfforddiant
Gweithgareddau

Roedd yr hyn roedd y prosiect yn ceisio ei gyflawni yn gromlin dysg serth i bawb dan sylw ac wrth i'r gwaith fynd rhagddo, roedd yn amlwg bod angen codi'r lefel sgiliau mewn perthynas â holi strategol. O ganlyniad, cynhaliwyd sesiynau datblygu ychwanegol ar weithio mewn partneriaeth gan Dr. Andrew Coulson o INLOGOV ac Ian Bottrill o ContinYou Cymru ac fe'u hariannwyd drwy'r Gronfa Datblygu Gwaith Craffu.

*Her 3: Y posibilrwydd o wahaniaethau diwylliannol/ gwahaniaethau eraill rhwng yr aelodau cyfetholedig a'r aelodau etholedig.*

Gwahaniaethau diwylliannol
Hyfforddiant
Gwybodaeth am y ffocws
Canolbwyntio ar y dinesydd
Canolbwyntio ar bartneriaethau

Roedd y Gweithgor yn cynnwys cymysgedd o aelodau cyfetholedig a chynghorwyr etholedig. Felly, roedd y diwylliannau roeddent yn dod ohonynt yn wahanol iawn. Er mwyn i'r prosiect lwyddo roedd yn bwysig bod y grŵp yn asio. Felly, canolbwyntiodd y cyfarfodydd cychwynnol ar gyflwyniadau a chael gwybodaeth am y materion sy'n ymwneud â cham-drin domestig ac yn benodol defnydd y BGLl o broses KAFKA a'i hathroniaeth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Roedd y dull pwyllog hwn yn llwyddiannus a datblygodd dynameg y grŵp gyda'r holl aelodau yn rhyngweithio ac yn dod i adnabod ei gilydd yn well.

O ganlyniad, cymerodd yr aelodau berchenogaeth ar y prosiect ac roeddent yn benderfynol o 'wneud gwahaniaeth'. Nid oedd yr aelodau yn ofni herio perfformiad sefydliadau eu hunain drwy holi tystion yn fanwl, a helpodd i gynnal y ffocws ar bartneriaethau. At hynny, cefnogwyd y prosiect gan ddau Swyddog Cynorthwyo Craffu'r Awdurdod a Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. Elwodd y prosiect hefyd ar gyfranogiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr Awdurdod. Roedd llwyddiant y prosiect yn dibynnu ar ymrwymiad yr aelodau a'r swyddogion.

*Her 4: Anghydraddoldeb rhwng aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig.*

Roedd gan bob un o'r sefydliadau partner rôl gyfartal o ran sicrhau bod y BGLI yn cyflawni ei nod o fynd i'r afael â cham-drin domestig. Felly, roedd yn bwysig bod hyn yn cael ei adlewyrchu o fewn gweithrediad gweithgor craffu'r BGLI. Roedd yn hanfodol bwysig i'r grŵp bod gan yr aelodau cyfetholedig yr un hawliau pleidleisio ag aelodau'r cyngor a chynhwyswyd hyn yng nghylch gorchwyl y Gweithgor. Roedd y cylch gorchwyl hefyd yn sicrhau na allai cadeirydd ac is-gadeirydd y grŵp ddod o'r un sefydliad. Awgrymwyd hefyd ar y dechrau y gallai cyfarfodydd gael eu cynnal y tu allan i amgylchedd y Cyngor. Fodd bynnag, daeth yn amlwg bod pob un o'r aelodau yn fodlon defnyddio cyfleusterau'r Cyngor. Roedd yr amser a gymerwyd ar ddechrau'r prosiect i sicrhau bod pob aelod yn gyfarwydd â phrosesau craffu a'r materion sy'n ymwneud â cham-drin domestig hefyd yn werthfawr i'r broses asio. Hefyd, sicrhaodd y swyddogion dan sylw eu bod ar gael i gynorthwyo'r aelodau etholedig a'r aelodau cyfetholedig. Roedd craffwyr unigol yn gallu siarad â swyddogion â'i gilydd ar sail ad hoc er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

| |
|---|
| Anghydraddoldeb<br>Cyfethol<br>Cylch gorchwyl<br>Asio<br>Gwahaniaethau diwylliannol<br>Hyfforddiant<br>Cymorth<br>Lleoliad y cyfarfod |

*Her 5: Craffwyr unigol yn holi eu cydweithwyr/ rheolwyr*

| |
|---|
| Pŵer<br>Unigolion<br>Lwc<br>Sgiliau |

Mae anghydbwysedd pŵer cynhenid mewn gwaith craffu am ei fod yn cynnwys aelodau gweithredol, neu swyddogion cyfatebol, yn cael eu holi a'u dwyn i gyfrif gan aelodau anweithredol. Gall hyn fod yn sefyllfa anodd i rai a gall ddibynnu i raddau helaeth ar gryfder y personoliaethau unigol. Fodd bynnag, dangosodd y prosiect fod modd goresgyn yr anawsterau posibl hyn drwy hyfforddiant a thrwy ddatblygu diwylliant partneriaeth lle mae'r aelodau unigol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr. Cyflawnwyd pob cam o'r broses yn araf, gan roi amser i'r aelodau unigol ymgyfarwyddo â'u rôl. Roedd yn amlwg ar ôl ychydig o gyfarfodydd bod gweithgor Rhondda Cynon Taf yn cynnwys unigolion a oedd yn fwy na pharod i ofyn cwestiynau i'w cydweithwyr a'r rhai uwch eu pennau.

# 5 Astudiaeth Achos 2: Caerdydd

Mae'r astudiaeth achos hon yn ymdrin â'r newidiadau a wnaed gan Gyngor Caerdydd ar gyfer y trefniadau craffu partneriaeth newydd, a'r hyn a ddysgwyd ganddo o banel craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol blaenorol a Mesur 2011.

**Caerdydd – Craffu ar Fwrdd Partneriaeth Caerdydd (CPB)**

*Manylion cyffredinol*

Mae gan Gyngor Caerdydd bum pwyllgor craffu a phum swyddog craffu penodol. Mae ganddo bedwar ymchwilydd craffu penodol hefyd. Roedd panel craffu'r BGLl peilot gwreiddiol yn cael cymorth gan swyddog craffu o Gyngor Caerdydd, a lwyddodd i gael £33,000 gan y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu (SDF), er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru.

Roed panel craffu'r BGLl yn cynnwys cadeirydd pob pwyllgor craffu ac aelod anweithredol o Awdurdod yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Ymddiriedolaeth GIG, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd (VAC), y Cyngor Iechyd Cymuned a chynrychiolydd o grwpiau Cydraddoldebau yng Nghaerdydd. Dechreuodd y panel hwn gyfarfod yng nghanol 2008 drwy gynnal sesiynau rhagarweiniol a datblygu a chyfarfod busnes. Cyfarfu'n ffurfiol bedair gwaith dros gyfnod y cynllun peilot rhwng mis Tachwedd 2008 a mis Medi 2009, gan alw ar dystion mewnol ac allanol. Ymestynnwyd y cynllun peilot am chwe mis a chyfarfu'r panel deirgwaith eto, gyda Chyngor Caerdydd yn talu cost yr estyniad. Edrychodd ar y ffordd roedd y BGLl yn gweithredu ei bedwar prosiect. Cafodd y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiectau, parodd i adroddiadau monitro perfformiad gael eu llunio ar gyfer y prosiectau, comisiynodd ymchwil, holodd dystion a chafodd dystiolaeth gan aelodau'r bwrdd.

Ar ddechrau'r cynllun peilot, roedd rhywfaint o'r gwaith craffu yn canolbwyntio ar brosiectau tra bod elfennau eraill yn rhai trawsbynciol, megis craffu ar newid sefydliadol. Yn ystod yr estyniad i gyfnod y cynllun peilot, penderfynodd yr aelodau fabwysiadu dull thematig o weithredu, gan graffu ar themâu megis ymgysylltu â dinasyddion, rhannu data, sut mae'r BGLl yn gweithredu ac adnoddau yn ogystal â monitro prosiectau. Defnyddiwyd hyn oll gan y panel i wneud argymhellion i'r BGLl ar sut i wella gwaith y prosiectau partneriaeth.

*Her 1: Meithrin Dealltwriaeth ac Ymddiriedaeth*

Roedd y profiad o graffu ar sefydliadau partner y BGLl gan yr awdurdod lleol yn gyfyngedig ac roedd eu barn am weithgarwch craffu wedi'i llywio gan eu systemau craffu. Roedd angen gwneud gwaith i feithrin dealltwriaeth ac ymddiriedaeth na fyddai'r broses graffu yn tanseilio weithiau drefniadau gwaith bregus o fewn y BGLl. Er mwyn galluogi hyn, cafodd rhaglen waith Panel Craffu'r BGLl peilot ei negodi'n ofalus gyda phrosiectau'r BGLl a swyddogion a oedd yn cynorthwyo'r BGLl. Cydnabuwyd gwaith y panel

Diffyg profiad
Ymddiriedaeth
Dealltwriaeth
Ffocws

fel arfer da gan Lywodraeth Cymru a'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus.

Fodd bynnag, nododd y panel broblemau y byddai am fynd i'r afael â hwy wrth graffu ar y BGLI yn y dyfodol. Pan sefydlwyd y panel newydd, ymdriniwyd â'r problemau hyn drwy ehangu'r cylch gorchwyl newydd er mwyn cynnwys y gweithgareddau a'r strwythurau partneriaeth ehangach. Mae'r gwaith o graffu ar Fwrdd Partneriaeth Caerdydd (CPB) bellach yn canolbwyntio ar faterion partneriaeth trawsbynciol, megis ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, ac ni roddir cymaint o sylw mwyach i brosiectau unigol oherwydd y nifer fawr o ffrydiau gwaith sy'n cael eu cyflawni gan Fwrdd Partneriaeth Caerdydd.

*Her 2: Prinder amser*

Mae'r panel craffu yn cynnwys aelodau etholedig a chyfetholedig sy'n brysur iawn yn cyflawni llawer o rolau eraill. Mae rhai ohonynt yn adnabod ei gilydd ond nid yw hynny'n wir am aelodau eraill. Mae'r panel yn cyfarfod bob chwarter ac mae eu cyfarfodydd yn gyfyngedig o ran amser. Mae hyn yn golygu nad oes ganddynt fawr ddim amser i asio. Nododd gwerthusiadau o'r BGLI blaenorol nad yw'r aelodau yn teimlo eu bod wedi asio'n llawn ac nad oeddent yn gweithio'n effeithiol tan y trydydd cyfarfod craffu er eu bod wedi cael sawl sesiwn ragarweiniol, datblygu a hyfforddi cyn cael eu cyfarfod cyntaf.

Amser
Asio
Gwybodaeth
Gwell argymhellion
Cyhoedd

Er mwyn helpu aelodau'r panel i asio a chodi ymwybyddiaeth yn eu plith, cynhaliodd y panel craffu CPB newydd ddau gyfarfod hyfforddi rhagarweiniol a rhag-gyfarfod cyn y cyfarfod craffu swyddogol cyntaf. O ganlyniad, bu modd i aelodau'r panel drafod pa feysydd y maent am eu hystyried yn y cyfarfod craffu a sut y gallai fynd rhagddo. Fodd bynnag, mae rhag-gyfarfodydd a gynhelir wythnos cyn cyfarfodydd craffu yn anodd iawn i'w trefnu, ac yn y dyfodol mae'r Caerdydd yn ystyried trefnu rhag-gyfarfodydd a gâi eu cynnal rhwng hanner awr ac awr cyn i'r cyfarfod craffu swyddogol ddechrau.

Am fod y cyfarfodydd yn gyfyngedig o ran amser, mae angen briffio'r aelodau am faterion a sicrhau eu bod yn eu deall mewn amser byr. Er y gall cyflwyniadau egluro materion, maent yn tueddu i ymestyn y sesiynau. Mae panel Caerdydd wedi lleihau nifer y cyflwyniadau y mae tystion yn eu rhoi, ac yn lle hynny mae'n well ganddo ddosbarthu papurau briffio cyn y cyfarfod wedi'u hategu gan gyflwyniadau byr iawn. Mae hyn yn caniatáu mwy o amser ar gyfer cwestiynau atodol a mwy o amser i'r panel ystyried y dystiolaeth a roddwyd yn y sesiynau a drafftio argymhellion.

*Her 3: Argymhellion*

Amser
Argymhellion
Cyfathrebu
Argymhellion 'mwy'
CAMPUS

I ddechrau ystyriwyd bod argymhellion y panel yn codi problemau. Gofynnodd y panel am i'r argymhellion gael eu gweithredu yn hytrach gan am ymateb i'r argymhellion. Roedd rhai swyddogion o'r farn nad oedd yr argymhellion yn rhai realistig o gofio blaenoriaethau a chyd-destun y BGLl. Golygai hyn fod trafodaethau ynghylch yr argymhellion yn cymryd gormod o amser yng nghyfarfodydd y BGLl a bod adnoddau yn cael eu harallgyfeirio o'r gwaith o gyflawni prosiectau. Rhoddwyd adborth ar y mater hwn a newidiodd y panel y ffyrdd roedd yn gwneud argymhellion. Roedd yr argymhellion a wnaed yn 'fwy' CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol) ac fe'u cyflwynwyd mewn ffordd fwy defnyddiol. Un o ganlyniadau'r newid hwn oedd bod ymateb y bwrdd yn fanylach nag o'r blaen. Parhawyd â'r dull gweithredu hwn gan banel craffu newydd CPB sy'n ceisio gwneud argymhellion sy'n dilyn model CAMPUS.

*Her 4: Arian*

Arian
Adborth
Cymorth
Ffocws

Fel rhan o'r broses beilot, cynhaliodd y Panel Craffu sesiynau gwerthuso rheolaidd a gwahoddodd adborth gan dystion ac arweinwyr prosiect er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r prosiect. Ar ddiwedd yr estyniad i gyfnod y cynllun peilot, cyfarfu Panel Craffu'r BGLl â Gweithrediaeth y BGLl er mwyn trafod y gwersi a ddysgwyd o'r prosiect a'r ffordd ymlaen a gynigiwyd. Cafwyd cefnogaeth unfrydol i barhau â Phanel Craffu'r BGLl amlasiantaeth a chytunwyd bod angen atgyfnerthu'r cylch gorchwyl a rheolau'r protocol ar gyfer y Panel newydd.

Fodd bynnag, roedd yn anodd sicrhau adnoddau ar gyfer Panel Craffu'r BGLl yn yr hinsawdd economaidd heriol a oedd yn effeithiol ar bob corff a oedd yn cymryd rhan yn y bartneriaeth. Ataliwyd y panel craffu dros dro tra roedd y bartneriaeth yn ailddatblygu ac arian yn cael ei sicrhau. Daeth y BGLl yn Fwrdd Partneriaeth Caerdydd (CPB) sydd wedi datblygu'n Gynllun Integredig Sengl (SIP) ers hynny. Mae'r Awdurdod Lleol bellach wedi cael arian i gyflogi swyddog craffu rhan-amser newydd i gynorthwyo panel craffu newydd CPB. Mae cyfansoddiad y panel craffu newydd yn debyg i'r panel blaenorol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr anweithredol o'r cyrff canlynol:

Cyngor 3$^{ydd}$ Sector Caerdydd (C3CS).
Cyngor Iechyd Cymuned.
Bwrdd Iechyd Prifysgol.
Pum cadeirydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu.
Y Gwasanaeth Tân ac Achub.
Y Gwasanaeth Prawf.
Cydraddoldebau.
Yr Heddlu.

Dechreuodd y panel hwn gyfarfod ar ddechrau 2012 gyda sesiynau rhagarweiniol a datblygu. Mae wedi cynnal un cyfarfod craffu ffurfiol lle y canolbwyntiodd ar thema drawsbynciol ymgysylltu. Mae datblygu'r Cynllun Integredig Sengl a newidiadau yn strwythur cyflawni'r bartneriaeth wedi bod yn hanfodol i'r newidiadau a wnaed yng Nghaerdydd ac yn ei threfniadau ar gyfer craffu ar y BGLl. Roedd y gefnogaeth a'r ysgogiad i barhau i graffu ar y bartneriaeth i'w priodoli i'r gwaith da a wnaed yn ystod y cam peilot a oedd yn golygu, cyn gynted ag y cafwyd arian, y gellid rhoi'r gwersi a ddysgwyd ar waith.

## 6 Dysgu o'r adroddiad hwn a chysylltiadau â gwaith arall

6.1 Diben yr adroddiad hwn yw sefydlu llinell sylfaen ar gyfer gweithgarwch craffu ar BGLlau ledled Cymru a nodi rhai o'r rhwystrau allweddol i weithgarwch craffu ar BGLlau effeithiol. Nodir y llinell sylfaen ym mhennod pedwar yn ogystal â rhai o'r rhwystrau. Dengys yr astudiaethau achos ym mhenodau pump a chwech sut mae dau awdurdod lleol wedi mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau i graffu, a godwyd yn yr adroddiad hwn a sut y gall newid ffocws gweithgarwch craffu ar ei ben ei hun gael cryn effaith ar rwystrau.

6.2 Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd llawer o atebion 'addas i bob sefyllfa' i rai o'r rhwystrau a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae angen i swyddogion craffu a'u cydweithwyr benderfynu a all y ffactorau galluogi a'r enghreifftiau o astudiaethau achos a gynigir yma helpu i ffurfio gwaith craffu ar BGLlau da yn eu hawdurdodau lleol, gyda'r unigolion penodol dan sylw a'r materion penodol sy'n codi pryderon yn eu hardal leol. Yn aml iawn, mae'r rhwystrau yn deillio o faterion diwylliannol sy'n anodd iawn eu newid. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn rheswm dros beidio â cheisio gwella'r gwaith o graffu ar y BGLl.

6.3 Gwnaed y gwaith ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn pan oedd galw am amser, gwybodaeth a phrofiad swyddogion craffu gan ymchwilwyr eraill, ac felly mae'r awdur yn ddiolchgar i'r rhai a roddodd o'u hamser i'r prosiect hwn.

6.4 Mae Ysgol Fusnes Caerdydd yn cynnal prosiect ymchwil i'r graddau y mae timau craffu wedi bod yn cydweithio ar weithgareddau sy'n ymwneud â chraffu a sut y gellir rhoi cymorth priodol i weithgarwch dysgu a chyfnewid gwybodaeth gan gymheiriaid rhwng swyddogion ac aelodau etholedig. At hynny, mae Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn galluogi pob awdurdod lleol i hunanwerthuso gweithgarwch craffu ac anodd awdurdodau lleol i gyfarfod yn eu hardaloedd ôl troed rhanbarthol i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gan gymheiriaid.

6.5 Mae'r CfPS yn cychwyn ar Raglen Cefnogi Craffu Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru.  Un o nodau allweddol y rhaglen hon yw galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gydweithio ar waith craffu mewn ffyrdd mwy effeithiol a gwella ymgysylltiad partneriaid lleol a chenedlaethol â gweithgarwch trosolwg a chraffu.

6.6 Mae'n bosibl bod y gwaith helaeth a oedd yn cael ei wneud yn y maes hwn ar adeg llunio'r adroddiad hwn wedi arwain at rai swyddogion craffu yn cael eu gorlwytho gan geisiadau am eu hamser a'u gwybodaeth. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, bu tîm polisi Llywodraeth Cymru, yr ymchwilydd ac ymchwilwyr prosiect Ysgol Fusnes Caerdydd, yn cyfathrebu â'i gilydd mewn ymgais i leihau'r baich cymaint ag yr oedd yn ymarferol.

6.7 Mae ffocws presennol yr adroddiad ar graffu ar BGLlau yn nodi ei fod yn wahanol i'r gwaith ymchwil mwy cyffredinol ar weithgarwch craffu sy'n cael ei wneud gan Ysgol Fusnes Caerdydd a SAC. Mae'r gwaith hwn yn rhoi syniad o'r hyn sy'n digwydd ledled Cymru o ran gweithgarwch craffu ar BGLlau. Mae hefyd yn rhoi cipolwg ar rai o'r rhwystrau a'r ffactorau galluogi allweddol y mae swyddogion craffu yn ystyried eu bod yn bwysig i waith craffu ar BGLlau. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hwn yn ganllaw ar ‘sut i graffu’, ac nid yw'n bwriadu cynrychioli barn pob awdurdod lleol ar waith craffu ar BGLlau a'r rhwystrau iddo na'r ffactorau sy'n ei ysgogi.

# 7 Casgliadau

7.1 Mae'r CfPS (2012a) yn nodi bod darlun cymysg o ran sefyllfa'r swyddogaeth graffu yng Nghymru a Lloegr nawr ac yn y dyfodol. Gellid dweud yr un peth am sefyllfa bresennol gweithgarwch craffu ar BGLlau yng Nghymru. Naill ai mae gweithgarwch craffu ar BGLlau yn gallu adnewyddu ei hun mewn ymateb i heriau newydd neu'n mae'n ei chael hi'n anodd ymdrin â materion cymorth gwirioneddol ac nid oes ganddo fawr ddim adnoddau i newid i ymateb i heriau newydd, neu mae pob awdurdod lleol unigol rywle yn y canol (CfPS, 2012a). Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o waith craffu effeithiol ac mae dwy astudiaeth achos ym mhenodau pump i chwech yn tystio i hyn.

7.2 Mae'r dybiaeth bod craffu ar y BGLl yn rhan bwysig o'r gwaith o wella trefniadau gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru yn llywio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo mwy ohono drwy fentrau megis y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu. Yn wir, maentumiodd cyfweleion fod *angen* craffu ar BGLlau.

7.3 Nid yw'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gweithgarwch craffu ar BGLlau. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig y cam cyntaf yn y broses o ddeall lefel y gweithgarwch craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol sy'n cael ei gyflawni ledled Cymru, o'r systemau a ddefnyddir a'r unigolion sy'n ymwneud â gwaith craffu i'r canfyddiadau o'r sefyllfa bresennol o ran gwaith craffu. Mae hefyd yn bwysig ystyried bod y gwaith ymchwil hwn wedi'i wneud ar ôl cyfnod o newid i drefniadau craffu ar BGLlau ac efallai y bydd y sefyllfa yn edrych yn wahanol iawn ymhen blwyddyn Felly, argymhellir y dylid cynnal astudiaeth debyg ymhen 12 mis pan fydd y cynlluniau craffu ar BGLlau, y cyfeiriwyd atynt gan ymatebwyr, wedi'u rhoi ar waith ac y gellir dechrau nodi pa mor effeithiol yw gwaith craffu.

### Gweithgarwch craffu ar BGLlau cyfredol

7.4 Ychydig o weithgarwch craffu ar BGLlau a gyflawnwyd dros y 12 mis diwethaf. At hynny, mae adroddiad Simpson (Simpson, 2011) a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wedi arwain at newidiadau y

mae awdurdodau lleol wrthi'n eu rhoi ar waith yn eu trefniadau ar gyfer craffu ar BGLlau. Er ei bod yn bwysig deall beth sy'n digwydd ar hyn o bryd, mae hefyd yn bwysig bod ymwybodol bod awdurdodau lleol ledled Cymru wrthi'n newid eu trefniadau ar gyfer craffu ar BGLlau. Dangosir hyn gan y bwriadau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol a nodir yn yr ymatebion i'r holiadur ac yn y cyfweliadau, megis bwriadau llywodraeth leol i banel craffu'r BGLl weithredu fel ymgynghoreion ar y Cynllun Integredig Sengl a chraffu arno pan gaiff ei roi ar waith. Felly, mae'n bosibl y bydd gwaith ymchwil yn y dyfodol, fel yr argymhellwyd uchod, yn gallu nodi'n fanylach sut mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wedi effeithio ar y trefniadau ar gyfer craffu ar BGLlau.

**Y system ar gyfer craffu ar BGLlau**

7.5 Ar wahân i'r ffocws ar weithgarwch craffu ar BGLlau, un o'r prif wahaniaethau rhwng paneli newydd, penodol a phaneli presennol sy'n craffu ar BGLlau yw cyfranogiad aelodau cyfetholedig o sefydliadau partner. Mae'r diffyg cyfarwyddyd o ran gwaith craffu ar BGLlau yn golygu bod awdurdodau lleol wedi bod yn rhydd i'w wneud gan ddefnyddio unrhyw ddull a ddymunant. Nododd y gwaith ymchwil hwn y byddai mwy o gyfarwyddyd ar waith craffu ar BGLlau gan Lywodraeth Cymru i'w groesawu.

7.6 Mae'r CfPS (2012a) wedi nodi bod diwylliant yn cael mwy o ddylanwad ar effeithiolrwydd gwaith craffu na strwythur. Nodwyd yn y cyfweliadau fod trefniadau arloesol yn cael eu datblygu gan o leiaf un awdurdod lleol. Mae'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i drefniadau craffu ar BGLlau ar hyn o bryd ledled Cymru yn golygu bod gweithgarwch craffu ar BGLlau yn datblygu. Ar hyn o bryd mae'n anodd crynhoi'r sefyllfa bresennol yng Nghymru, am fod BGLlau ledled Cymru ar wahanol gamau yn y broses ddatblygu honno ac maent yn defnyddio gwahanol systemau a strwythurau.

**Gweithgarwch craffu ar BGLlau**

7.7 Er i 12 o ymatebwyr nodi bod eu hawdurdodau lleol yn craffu ar y BGLl, wrth siarad â'r cyfweleion, nododd pedwar ohonynt fod gwaith craffu ar BGLlau yn cynnwys y panel craffu presennol yn cael adroddiadau gan y BGLl ac yn gwneud sylwadau, yn hytrach nag argymhellion ffurfiol. Ac nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol o ganlyniadau sylwadau'r panel craffu ychwaith. Felly, mae'n anodd nodi effaith gweithgarwch craffu cyfredol. Fodd bynnag, mae newidiadau yn cael eu gwneud yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol hyn ac mae'n bosibl y bydd gweithgarwch craffu ar BGLlau yn edrych yn wahanol yn y dyfodol agos.

7.8 Canfu'r CfPS (2012a) fod argymhellion ynghylch gwaith craffu (gwaith craffu cyffredinol, nid dim ond craffu ar BGLlau) yn cael eu derbyn 85% o'r amser a'u gweithredu 86% o'r amser. Yn yr astudiaeth bresennol, prin oedd y dystiolaeth ar argymhellion. Fodd bynnag, nododd tri swyddog ar yr holiadur fod panel craffu'r BGLl yn eu hawdurdod lleol yn anfon adroddiadau ffurfiol neu'n gwneud argymhellion i'r BGLl. Gall hyn awgrymu nad yw gweithgarwch craffu ar BGLlau wedi'i ymgorffori eto yn yr un ffordd ag y mae gweithgarwch craffu yn gyffredinol wedi'i ymgorffori ledled Cymru a Lloegr.

### Rhwystrau i graffu ar BGLlau

7.9 Mae'r rhwystrau i weithgarwch craffu ar BGLlau effeithiol, a nodwyd gan yr ymatebwyr drwy'r holiadur a'r cyfweleion, yn ategu canfyddiadau llenyddiaeth ar y pwnc. Y rhwystr allweddol a nodwyd yn yr ymchwil hon yw diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o weithgarwch craffu ar BGLlau. Un ffordd o oresgyn y rhwystr hwn a nodwyd gan gyfranogwyr oedd gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o weithgarwch craffu ar BGLlau, y gellir ei wneud drwy hyfforddi craffwyr etholedig a chyfetholedig. Fodd bynnag, mae diffyg amser ac adnoddau yn rhwystr y gall fod yn anos ei oresgyn. Dengys yr astudiaethau achos fod defnyddio ffyrdd arloesol o ddefnyddio amser yn fwy effeithiol o gymorth. Yn y dyfodol, efallai y bydd proffil uwch i

weithgarwch craffu ar BGLlau yn annog awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i neilltuo mwy o amser swyddogion ac adnoddau ar gyfer gweithgarwch craffu ar BGLlau.

7.10 Mae'n bosibl y bydd proffil uwch i weithgarwch craffu ar BGLlau hefyd yn helpu i oresgyn rhwystr diffyg ymgysylltu ac ystyriaethau gwleidyddol. Yn wir, gallai mwy o hyfforddiant ac addysg am weithgarwch craffu ar BGLlau wella prosesau ymgysylltu. At hynny, efallai y bydd mwy o ymddiriedaeth, gwell cyfathrebu a gwell cydberthnasau rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid, panel craffu'r BGLl ac aelodau swyddogol o fewn llywodraeth leol a chan bartneriaid, yn helpu i liniaru ystyriaethau gwleidyddol.

**Ffactorau ysgogi ar gyfer gweithgarwch craffu ar BGLlau**

7.11 Roedd y swyddogion craffu o'r farn mai'r prif ffactor ysgogi ar gyfer gweithgarwch craffu ar BGLlau oedd yr ymgyrch i hyrwyddo cydweithio neu weithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, nid dyma'r unig ffactorau ysgogi, am fod rhai swyddogion craffu wedi cyfeirio at yr ymgyrch i hyrwyddo atebolrwydd, yr awydd i herio'r BGLl a'r awydd i ymgorffori anghenion y cyhoedd a'r ardal y mae'r BGLl yn ei chynrychioli. Ychydig bach o fewnbwn a gaiff aelodau o ran ysgogi gweithgarwch craffu ar BGLlau. O'r cyfweliadau, roedd yn amlwg bod camau craffu ar BGLlau yn tueddu i gael eu cymryd gan swyddogion llywodraeth leol, weithiau gyda hwb ychwanegol gan lywodraeth ganolog o ganlyniad i gynlluniau megis y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu. Mae hyn yn bwysig am mai un o'r amodau sy'n hyrwyddo gwaith craffu effeithiol yw arweinyddiaeth ac ymgysylltiad aelodau etholedig (Snape at al, 2002).

**Cymorth a chanllawiau ar gyfer craffu ar BGLlau**

7.12 Mae llawer o awdurdodau lleol yn bwriadu dechrau craffu ar y BGLl yn y dyfodol agos, ac er bod cymorth yn dechrau dod ar gael ar gyfer gweithgarwch craffu ar BGLlau drwy'r Rhaglen Cefnogi Craffu Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar gan y CfPS, prosiect hunanwerthuso cyfredol SAC a Chronfa Datblygu Gwaith Craffu Llywodraeth Cymru a

adferwyd, dengys y gwaith ymchwil hwn fod swyddogion craffu o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o gyfeiriad ar gyfer gweithgarwch craffu ar BGLlau. Bydd canllawiau yn hanfodol i gefnogi gweithgarwch craffu ar BGLlau yn y dyfodol a dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r holiadur becyn adnoddau craffu ar BGLlau ymhlith eu tri opsiwn uchaf ar gyfer cymorth yn y dyfodol.

**I grynhoi…**

7.13 Ceir darlun cymysg ledled Cymru o ran gweithgareddau craffu ar BGLlau. Tybir bod craffu ar BGLlau yn beth 'da'; y mae angen ei wneud. Mae'r astudiaeth bresennol wedi rhoi 'ciplun' o'r gweithgarwch craffu ar BGLlau sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd ac yn dangos bod y ffyrdd y cyflawnir gweithgarwch craffu yn amrywio, o'r systemau a ddefnyddir a'r aelodaeth i ffocws y gwaith craffu ei hun. Fodd bynnag, mae gweithgarwch craffu ar BGLlau yn datblygu o ganlyniad i Fesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011 ac ymgyrch Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cydweithio, symleiddio ac atebolrwydd. Gall Llywodraeth Cymru gefnogi gweithgarwch craffu ar BGLlau yng Nghymru drwy adeiladu ar y cymorth y mae eisoes yn ei gynnig er mwyn galluogi BGLlau i ymateb i ddatblygiadau diweddar ac atgyfnerthu trefniadau craffu ar BGLlau o ganlyniad i hynny.

## Cyfeiriadau

Ashworth, R. (2003) Toothless Tigers? Councillor Perceptions of New Scrutiny Arrangements in Welsh Local Government, *Local Government Studies*, 29:2, 1-18

Beecham, J. Webb, A. and Morgan, G. (2006) *Beyond Boundaries: Citizen-centred local services for Wales*. Cardiff: WAG. Online: http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/beyondboundaries/?lang=en

CfPS (2009) *Review of pilot local service board scrutiny arrangements* London: CfPS.

CfPS (2012a) *Annual survey of overview and scrutiny in local government 2011 / 2012*. London: CfPS.

CfPS (2012b) *Home page*. http://www.cfps.org.uk/home-page

CfPS (2012c) *Joining up the dots: overview and scrutiny in local government: an analysis of eight years of CfPS survey findings*. London: CfPS. Online: http://www.cfps.org.uk/publications?item=7042&offset=0

Coleman, A., Gains, F., Boyd, A., Bradshaw, D. and Johnson, C. (2009) Scrutinising local public service provision, *Public money and management*, 29 (5) 299 – 306

CRG (2007) *Review of the role and functions of elected members*. Cardiff: WAG. Online: http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/research/reviewelectedmembers/?lang=en

Downe and Ashworth (2011) *Evaluation of the Scrutiny Development Fund in Wales.* Cardiff: Welsh Government. Online: http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/scrutinydevelopment/?lang=en

Great Britain: *Local Government Act 2000*. Online: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/22/section/21?view=extent

Great Britain: *Local Government (Wales) Measure (2011)*. Online: http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents

Martin, S. Downe, J. Entwistle, T. & Guarneros-Meza, V. (2011) *Learning to Improve: An Independent Assessment of the Welsh Government's Policy for Local Government.* Cardiff: WAG. Online: http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/research/learnimprove2/?lang=en

Mckenna, D. (2012) The prospects for regional collaboration scrutiny: a view from Wales. Paper to "Sustainability, Regionalism and Changing Public Administration" *The Annual Conference of the Public Administration Committee (PAC),* Plymouth University July 2012 Online: http://localopolis.blogspot.co.uk/p/my-publications.html

National Assembly for Wales (2008) *Inquiry into Local Service Boards*. Online: www.assemblywales.org/cr-ld7339-e.pdf

Simpson, J. (2011) *Local, regional, national: What services are best delivered where? A report to Carl Sargeant AM, Minister for Social Justice and Local Government*. Online: http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/lnrdelivery/?lang=en

Snape, S. and Dobbs, L. (2003) The scrutineer: the impact of overview and scutiny on councillor roles, *Public policy and administration*, 8 (1) 46 – 62.

Snape, S. Leach, S. & Copus, C. (2002) *The development of overview and scrutiny in local government*. London: ODPM

Wilson and Game (1998, 2006) *Local government in the United Kingdom*. Basingstoke: Palgrave Macmillan

WLGA (2010) *Scrutiny of multi-agency partnerships*. Cardiff: WLGA. Online www.wlga.gov.uk/download.php?id=3538&l=1

# Atodiadau 1

## Sefydlu Llinell Sylfaen – Ymarfer Mapio Craffu Byrddau Gwasanaethau Lleol

Diolch am gytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn.

Hoffai Llywodraeth Cymru wybod beth sy'n digwydd ar hyn o bryd o ran craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol ym mhob awdurdod lleol er mwyn i ni allu rhoi gwell cymorth.

Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy na 15 munud i'w gwblhau

Rhaid ateb cwestiynau sydd â seren (*) wrth eu hymyl.

***Manylion Cyffredinol***

**Q1**. Beth yw enw'ch Cygor?

- Blaenau Gwent
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerffili
- Caerdydd
- Sir Gâr
- Ceredigion
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Gwynedd
- Ynys Môn
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Castell-nedd Port Talbot
- Casnewydd
- Sir Benfro
- Powys
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe
- Bro Morgannwg
- Torfaen
- Wrecsam

**Q2**. Sawl Pwyllgor Craffu sydd gan eich Cyngor?

**Q3**. Sawl Swyddog Craffu penodol sydd gan eich Cyngor?

**Q4**. A ydych chi'n gallu cael gafael ar gymorth craffu ychwanegol?
Ydyn / Nac ydyn

**Q5**. O ble ydych chi'n gallu cael gafael ar gymorth craffu ychwanegol?

***Model Craffu Byrddau Gwasanaethau Lleol***

**Q6.** A ydych chi wedi sefydlu unrhyw fath o fecanwaith Craffu Bwrdd Gwasanaeth Lleol?
Ydyn / Nac ydyn

**Q7**. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fwriad gan eich Cyngor i ddatblygu Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol dros y flwyddyn nesaf?
Ydw / Nac ydw

**Q8.** Rhowch amlinelliad o'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer datblygu Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol?

**Q9.** Yn eich barn chi, beth yw'r **3** rhwystr mwyaf i ddatblygu Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol?

**Q10**. Yn seiliedig ar eich gwybodaeth a'ch profiad chi, beth yw'r ffactor pwysicaf ar gyfer goresgyn rhwystrau i Graffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol?

**Q11**. Yn eich barn chi, beth yw'r **3** hwb mwyaf i ddatblygu Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol?

**Q12**. O'r rhestr isod, dewiswch yr opsiwn sy'n cynnig y disgrifiad gorau o drefniadau Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol eich cyngor:

1. BWRDD AML-ASIANTAETH PENODEDIG sy'n IS-BWYLLGOR i Bwyllgor Craffu presennol;
2. BWRDD AML-ASIANTAETH PENODEDIG sy'n ANNIBYNNOL ar Bwyllgor Craffu presennol;
3. PWYLLGOR CRAFFU PRESENNOL sy'n cyflawni'r rôl Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol;
4. BWRDD AML-ASIANTAETH PENODEDIG sy'n IS-BWYLLGOR i Bwyllgor Craffu presennol gyda CHYNRYCHIOLAETH AELODAU ETHOLEDIG o fwy nag un awdurdod lleol.
5. Arall.

***Aelodau Cyfetholedig***

**Q13.** A yw aelodau cyfetholedig yn cael eu cynnwys fel rhan annatod o Graffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn eich Cyngor chi?
Ydyn / Nac ydyn

**Q14**. Sawl aelod cyfetholedig sy'n cael eu cynnwys yn nhrefniadau Craffu eich Bwrdd Gwasanaethau Lleol chi?

**Q15**. Pa asiantaethau neu sefydliadau y mae'r rhain yn eu cynrychioli? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

Elusen
Sefydliad gwirfoddol ar lefel sirol
Gwasanaeth / Awdurdod yr Heddlu
Y Gwasanaeth Tân ac Achub
Bwrdd Iechyd
Ymddiriedolaeth y GIG
Gwasanaeth Prawf / Ymddiriedolaeth Prawf Cymru
Grŵp Busnes
Asiantaeth yr Amgylchedd
Llywodraeth Cymru
Prifysgol
Coleg
Rhiant-Lywodraethwr
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Cymdeithas Dai
Canolfan Cyngor ar Bopeth
Canolfan Byd Gwaith
Cynghorau Tref / Cynghorau Cymunedol
Cymunedau yn Gyntaf
Arall

**Q16**. A yw'r Aelodau Cyfetholedig wedi derbyn unrhyw hyfforddiant Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol?
Ydyn / Nac ydyn

**Q17** Pwy ddarparodd yr hyfforddiant?
Yr Awdurdod Lleol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Asiantaeth Allanol
Arall

**Q18**. A oes gan yr aelodau cyfetholedig hawl i bleidleisio ar hyn o bryd?
Oes / Nac oes

***Strwythur, Swyddogaeth a Chapasiti Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol***

**Q19.** Sawl Aelod Etholedig sydd ar eich Panel / Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol?

**Q20.** A oes cylch gorchwyl gan eich Panel / Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar hyn o bryd?
Oes / Nac Oes

**Q21**. A yw wedi gosod Blaengynllun Gwaith?
Ydy / Nac ydy

**Q22**. A ymgynghorwyd â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wrth ddatblygu'r Panel / Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol?
Do / Naddo

**Q23**. A yw eich Panel / Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gallu cynnal archwiliadau Grŵp Gorchwyl a Gorffen?
Ydy / Nac ydy

**Q24**. Pwy yw Cadeirydd eich Panel / Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar hyn o bryd? (Nodwch ei rôl)

**Q25**. Pa mor aml y mae Cadeirydd y Panel / Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cwrdd â Chadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol?

Byth
Unwaith yr wythnos
Unwaith y mis
Yn chwarterol
Bob chwe mis
Arall

***Gweithgarwch Craffu a Chynnydd Hyd yn Hyn***

**Q26.** A yw mecanweithiau Craffu eich Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi cymryd rhan yn unrhyw rai o'r gweithgareddau craffu canlynol hyd yma? Ticiwch bob un sy'n briodol.

- Dal y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gyfrif o ran Cytundebau Cyflenwi Lleol neu raglenni gwaith arfaethedig eraill.
- Archwiliadau ac arolygon 'Gorchwyl a Gorffen' mewn perthynas â blaenoriaethau, projectau neu ffrydiau gwaith Bwrdd Gwasanaethau Lleol
- Cwmpasu prosiectau â blaenoriaeth posibl Bwrdd Gwasanaethau Lleol (Craffu cyn penderfyniad)
- Cynghori ar Gytundebau Cyflenwi Lleol neu brosiectau eraill Bwrdd Gwasanaethau Lleol
- Cyfrannu at ymarfer gwerthuso blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol
- Arall

**Q27.** A yw mecanweithiau Craffu eich Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi gwneud adroddiad i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol neu roi argymhellion i'r Bwrdd hyd yma?
Ydyn / Nac ydyn

**Q28**. O ystyried popeth, pa gategori fyddai'n disgrifio datblygiad trefniadau Craffu eich Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar hyn o bryd? Dewiswch o'r rhestr isod.

1. Dim trefniadau Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar waith ar hyn o bryd

2. Peth gwaith cychwynnol wedi'i wneud i DDATBLYGU trefniadau craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol

3. Trefniadau gweddol ddatblygedig ar waith gan gynnwys CYFETHOL A CHYNNWYS CYNRYCHIOLWYR TRAWSBYNCIOL YN RHEOLAIDD

4. Trefniadau sefydledig ar waith gan gynnwys DATBLYGU A CHYFLAWNI BLAENGYNLLUN GWAITH ac ADRODD A CHYFATHREBU RHEOLAIDD GYDA PHARTNERIAID BWRDD GWASANAETHAU LLEOL

5. Trefniadau datblygedig lle CAIFF GWEITHGAREDD CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU LLEOL EI BARCHU A'I WERTHFAWROGI GAN Y BWRDD GWASANAETHAU LLEOL FEL RHAN ANNATOD O'R TREFNIADAU GWERTHUSO BLYNYDDOL

***Cefnogaeth yn y Dyfodol***

**Q29**. Pa **dri** o'r opsiynau canlynol fyddai orau, yn eich barn chi, i gefnogi trefniadau craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol eich cyngor? Ticiwch y tri fyddai fwyaf defnyddiol:

- Datblygu a lledaenu arfer gorau ac astudiaethau achos drwy E-lythyr Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol

- Datblygu Pecyn Cymorth Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol - byddai hyn yn cynnwys templedi o adroddiadau, cylch gorchwyl drafft, modelau o wahanol strwythurau craffu, sut i ddatblygu Blaengynllun Gwaith, cyngor ar ddulliau ymchwil ar gyfer Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

- Gweithdai a Seminarau Rhanbarthol ar Graffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol

- Gweithdai a Seminarau Cenedlaethol ar Graffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol

- Gweithdai a Seminarau ar Graffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol o fewn Cynghorau unigol

- Cymorth gyda golygu adroddiadau ac argymhellion Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol

- Gweithgaredd adolygu gan gymheiriaid megis mynychu, arsylwi a dadansoddi mewn cyfarfodydd Craffu’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol

- Darparu sesiynau cyflwyno a chynghori i Fyrddau Gwasanaethau Lleol a Phaneli / Pwyllgorau Craffu’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol

**Q30**. Nodwch unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ychwanegol ynghylch unrhyw agwedd ar graffu’r Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol

Diolch am dreulio amser yn helpu gyda’r ymchwil hwn

## Atodiadau 2

Diolch am gymryd rhan yn y cyfweliad hwn. Ni ddylai gymryd mwy na hanner awr, gobeithio, ond os bydd angen i chi fynd, rhowch wybod i mi tua 10 munud ynghynt (os yw'n bosibl), fel bod modd i mi ofyn rhai cwestiynau i gloi. Byddaf yn gofyn cwestiynau am y gwaith o ddatblygu'r broses o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol yn eich cyngor, y broses o graffu ar y bwrdd gwasanaethau lleol a hyfforddi a datblygu. Byddwn yn gwerthfawrogi'r holl wybodaeth y gallwch ei rhoi, yn ogystal â'ch barn bersonol. Os na allwch ateb unrhyw gwestiynau, rhowch wybod i mi ac fe symudwn ymlaen. Byddaf yn cymryd nodiadau, felly byddwch yn amyneddgar. Fel yr wyf eisoes wedi sôn, hoffwn recordio'r sgwrs hon, os yw hynny'n iawn? Bydd hyn yn fy helpu i wneud nodiadau manylach yn nes ymlaen ac i ddadansoddi eich ymatebion.

*1) Sefydlu proses o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol*

Gan fynd yn ôl i'r dechrau'n deg, allwch chi ddweud wrthyf am y broses o sefydlu proses o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol yn [enw'r cyngor]?

- *Beth wnaeth eich ysgogi i ymgymryd â'r gwaith o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol?*
- *Pwy oedd yn gysylltiedig â hyn? Ar ba fath o lefel y mae'r unigolyn hwnnw? Pa mor uchel?*
- *Camau arferol*
    - *Datblygu cylch gorchwyl?*
    - *Datblygu pa agweddau ar y bwrdd gwasanaethau lleol yr hoffai'r aelodau graffu arnynt?*
    - *Aelodau cyfetholedig - sut y pennwyd rôl neu fewnbwn yr aelodau cyfetholedig?*
    - *Sut a pham y cafodd yr aelodau cyfetholedig hyn eu nodi a'u penodi*
    - *Sut y cafodd y tîm craffu ar fyrddau gwasanaethau lleol ei ddatblygu? Ei hyfforddi? Adeiladu tîm?*
- *Nawr eich bod wedi bod drwy'r broses honno, a fyddech yn argymell ei gwneud yn y ffordd honno?*
- *Beth y byddech yn ei newid pe baech yn ei gwneud eto?*
- *Pa gyngor y byddech yn ei gynnig i gyd-swyddog sy'n sefydlu proses graffu?*

*2) Proses graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol o fewn yr Awdurdod Lleol*
Yn eich barn chi, ym mha ffyrdd y mae'r broses o graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn wahanol i fathau eraill o graffu yn eich cyngor?

- *Pobl / personél; Prosesau; Effaith; Agweddau*

*3) Proses o graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol*
Nawr, hoffwn pe baech yn disgrifio prosiect craffu ar fyrddau gwasanaethau lleol a gwblhawyd dros y 12 mis diwethaf sydd wedi mynd yn dda iawn yn eich barn chi, neu'r enghraifft orau o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol yn eich cyngor. Beth yw eich enghraifft neu brofiad mwyaf cadarnhaol o broses graffu

ar fyrddau gwasanaethau lleol dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi? *Rhowch amser i'r ymatebydd feddwl.*

- *Allwch chi ddisgrifio'r broses ar gyfer datblygu pynciau ar gyfer y prosiect hwnnw o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol?*
- *Ar ôl cytuno ar y pwnc, sut aethpwyd ati i graffu?*
- *Camau arferol:*
  - *Comisiynu adroddiadau gwybodaeth gan swyddogion cymorth byrddau gwasanaethau lleol*
  - *Trefnu cyfweliadau / trafodaethau â chynrychiolwyr o'r bwrdd gwasanaethau lleol*
  - *Dadansoddi gwybodaeth a gwneud argymhellion*
  - *Cyflwyno casgliadau ac argymhellion i'r bwrdd gwasanaethau lleol*
  - *Monitro argymhellion blaenorol*
- *Pa fath o graffu a gyflawnwyd?*
- *Beth oedd rôl yr aelodau cyfetholedig*
  - *A wnaeth hyn helpu'r broses graffu?*
- *Beth oedd rôl aelodau etholedig yn y broses?*
- *A oedd ymgysylltu â'r cyhoedd yn nodwedd ar y prosiect hwn?*
  - *Sut y gwnaed hyn?*
  - *Beth oedd yr effaith ar y broses graffu*
  - *Sut aeth hynny?*
- *Beth oedd canlyniadau'r gweithgaredd craffu?*
  - *Adroddiad ffurfiol / argymhellion i'r bwrdd gwasanaethau lleol?*
  - *A ystyriodd y bwrdd gwasanaethau lleol yr argymhellion?*
  - *A gymerwyd unrhyw gamau yn sgil hyn?*
- *A yw'r bwrdd gwasanaethau lleol wedi rhoi unrhyw adborth ar waith neu ddatblygiad Bwrdd Craffu byrddau gwasanaethau lleol*
  - *Sut y derbyniwyd hynny?*
  - *A wnaed unrhyw newidiadau?*
- *A gafwyd unrhyw adborth negyddol ar y broses o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol*
  - *Sut y derbyniwyd hynny?*
  - *A wnaed unrhyw newidiadau?*
- *Mae'n swnio fel pe bai wedi mynd yn dda iawn, a fu unrhyw rwystrau neu heriau?*
  - *Sut y cafodd y rhain eu hamlygu?*
  - *Sut yr aethoch ati i geisio eu goresgyn?*
- *A oedd Llywodraeth Cymru'n gysylltiedig â'r prosiect penodol hwn ar unrhyw adeg? Sut aeth hynny?*
- A fyddech yn dweud bod hynny'n broses arferol? A yw prosiectau craffu ar fyrddau gwasanaethau lleol yn tueddu i ddatblygu cystal?

4) Nawr, hoffwn i chi ddisgrifio prosiect craffu ar fyrddau gwasanaethau lleol a oedd yn llai llwyddiannus, neu un a aeth o'i le. Beth fyddai'n enghraifft lai llwyddiannus o broses o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi?

- *Allwch chi ddisgrifio'r broses ar gyfer datblygu pynciau ar gyfer y prosiect hwnnw o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol?*

- *Ar ôl cytuno ar y pwnc, sut aethpwyd ati i graffu?*
- *Camau arferol:*
  - o *Comisiynu adroddiadau gwybodaeth gan swyddogion cymorth byrddau gwasanaethau lleol*
  - o *Trefnu cyfweliadau / trafodaethau â chynrychiolwyr o'r bwrdd gwasanaethau lleol*
  - o *Dadansoddi gwybodaeth a gwneud argymhellion*
  - o *Cyflwyno casgliadau ac argymhellion i'r bwrdd gwasanaethau lleol*
  - o *Monitro argymhellion blaenorol*
- *Pa fath o graffu a gyflawnwyd?*
- *Beth oedd rôl yr aelodau cyfetholedig?*
  - o *A wnaeth hyn helpu'r broses graffu?*
- *Beth oedd rôl aelodau etholedig yn y broses?*
- *A oedd ymgysylltu â'r cyhoedd yn nodwedd ar y prosiect hwn?*
  - o *Sut y gwnaed hyn?*
  - o *Beth oedd yr effaith ar y broses graffu?*
  - o *Sut aeth hynny?*
- *Beth oedd canlyniadau'r gweithgaredd craffu?*
  - o *Adroddiad ffurfiol / argymhellion i'r bwrdd gwasanaethau lleol?*
  - o *A ystyriodd y bwrdd gwasanaethau lleol yr argymhellion?*
  - o *A gymerwyd unrhyw gamau yn sgil hyn?*
- *A yw'r bwrdd gwasanaethau lleol wedi rhoi unrhyw adborth ar waith neu ddatblygiad Bwrdd Craffu byrddau gwasanaethau lleol?*
  - o *Sut y derbyniwyd hynny?*
  - o *A wnaed unrhyw newidiadau?*
- *A gafwyd unrhyw adborth negyddol ar y broses o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol?*
  - o *Sut y derbyniwyd hynny?*
  - o *A wnaed unrhyw newidiadau?*
- *Nid oedd pethau'n mynd yn rhy dda felly? Sut y gwnaethoch ymdopi â hynny?*
- *A oedd Llywodraeth Cymru'n gysylltiedig â'r prosiect penodol hwn ar unrhyw adeg? Sut aeth hynny?*
- A fyddech yn dweud bod hynny'n broses arferol? A yw prosiectau craffu ar fyrddau gwasanaethau lleol yn tueddu i ddatblygu felly?

Diolch yn fawr iawn am hynny. Mae'r enghreifftiau hynny'n rhai defnyddiol iawn.
Nawr hoffwn ofyn ychydig gwestiynau am hyfforddiant a chymorth.

*5) Hyfforddi a datblygu'r broses graffu*

- Ydych chi neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â phroses graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol yn eich cyngor wedi manteisio ar unrhyw raglen hyfforddi/datblygu?
- Allwch chi roi gwybodaeth i mi am hynny?
  - o *Pwy a'i darparodd?*
  - o *Pa bynciau a ystyriwyd?*
  - o *Pa mor ddefnyddiol ydoedd?*

- *canllawiau arfer da? Rhwydweithiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac ati? Canolfan Craffu Cyhoeddus? Mewnol?*

- Pa systemau cymorth eraill ydych chi neu eich cydweithwyr ym maes craffu ar fyrddau gwasanaethau lleol wedi eu defnyddio? Canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Rhwydweithiau? Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, cymorth Llywodraeth Cymru; Cronfa Ddatblygu, cymorth mewnol?
- Pa mor ddefnyddiol yw'r cymorth hwnnw, yn eich barn chi?
- A oes unrhyw fylchau yn y cymorth sydd ar gael?

*6) Cwestiynau cyffredinol i gloi (yn enwedig os oes angen i'r ymatebydd orffen yn gynt)*

- Beth yw eich barn ar y broses o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol ac a gyflawnwyd hynny yn (enw'r cyngor)?
- Beth yw eich barn ar y broses o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol yn gyffredinol?
- Beth yw eich barn ar y ddarpariaeth personau dynodedig fel yr amlinellir yn y mesur Llywodraeth Leol?
- Beth yw'r heriau allweddol i ddatblygu proses o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol, yn eich barn chi?
- Beth y byddech yn ei ddweud wrth gynghorau eraill sydd ar fin gweithredu proses o graffu ar fyrddau gwasanaethau lleol ? Pa gyngor y byddech yn ei roi iddynt?

---